



Home Office

Y Swyddfa Gartref

Canllawiau ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS): Haen Uwch

Ebrill 2025



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme> Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

FIRS@homeoffice.gov.uk

Cynnwys

Rhestr termau allweddol	3
Pennod 1: Ynglŷn â'r canllawiau hyn	4
Pennod 2: Cyflwyniad i'r Haen Uwch	5
Pennod 3: Gofynion yr Haen Uwch	7
Gofynion ar gyfer unigolion neu sefydliadau mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig neu endid a reolir gan bŵer tramor	7
Gofynion ar gyfer pwerau tramor penodedig	12
Gofynion ar gyfer endidau a reolir gan bŵer tramor penodedig	12
Pennod 4: Amseru cofrestru	13
Pennod 5: Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn	14
Trefniadau cofrestradwy	14
Gweithgareddau cofrestradwy gan endidau a reolir gan bŵer tramor penodedig	15
Pennod 6: Canllawiau i weithwyr, isgontractwyr a phersonau eraill sy'n cynnal gweithgareddau o fewn cwmphas FIRS	16
Trefniadau cofrestradwy	16
Gweithgareddau cofrestradwy gan endidau a reolir gan bŵer tramor penodedig	18
Pennod 7: Enghreifftiau o drefniadau a gweithgareddau sy'n gofyn am (a heb fod angen) cofrestru o dan yr haen uwch	19
Pennod 8: Gwybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru	26
Pennod 9: Gofynion i ddiweddarw cofrestru pan fydd "newid sylweddol"	27
Enghreifftiau o gydymffurfiaeth	28
Pennod 10: Canllawiau ar gyfer mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth o wledydd y mae eu llywodraeth wedi'i phennu	31
Pennod 11: Canllawiau i'r rhai sy'n gweithio gyda mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth ac endidau eraill sydd â chysylltiadau agos â phwerau tramor penodedig	34

Pennod 12: Troseddau a chosbau	37
Pennod 13: Rhyngweithio rhwng FIRS a mesurau eraill y Llywodraeth	38
Pennod 14: Esemptiadau rhag cofrestru	40
Esemptiad 1: Y rhai sy'n rhan o drefniant Corff y Goron yn y DU (Atodlen 15 paragraff 1)	40
Esemptiad 2: Pwerau tramor (Atodlen 15 paragraff 2)	42
Esemptiad 3: Priodau, partneriaid ac aelodau teulu staff cenadaethau diplomyddol, swyddi consylaidd a chenadaethau parhaol i sefydliadau rhyngwladol yn y DU (Atodlen 15 paragraff 3(2)-(5))	43
Esemptiad 4: Gweithgareddau cyfreithiol (Atodlen 15 paragraff 6)	44
Esemptiad 5: Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd consylaidd neu genhadaeth barhaol i sefydliad rhyngwladol yn y DU (Atodlen 15 paragraff 3(1))	46
Esemptiad 6: Y rhai sy'n rhan o gorff cyhoeddus yn y DU trefniant	47
Esemptiad 7: Trefniadau Addysg a Ariennir	49
Esemptiad 8: Gwasanaethau Gweinyddol a Thechnegol y Llywodraeth	51
Atodiad A: Tabl o enghreifftiau	54

Rhestr termau allweddol

FIRS	Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor. Y Cynllun a gyflwynwyd trwy Ran 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.
Trefniant	Unrhyw fath o gytundeb, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gallai hyn gynnwys contract, memorandwm dealltwriaeth (MOU) neu gytundeb neu drefniant anffurfiol quid pro quo. Mae rhagor o fanylion ym mhennod 3 amod 1 .
Pŵer tramor	Mae ganddo'r ystyr a roddir gan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.
Pŵer tramor penodedig	Pŵer tramor sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS.
Gweithgaredd perthnasol	Math o weithgaredd o fewn cwmpas cofrestru o dan haen uwch FIRS.
Esemptiad rhag cofrestru	Amgylchiad lle nad yw gofynion cofrestru yn berthnasol. Mae rhagor o fanylion ym mhennod 14 .
Person	Unigolyn neu berson arall nad yw'n unigolyn, fel cwmni..
Cofrestrai	Person y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan FIRS.
Hysbysiad gwybodaeth	Hysbysiad a gyhoeddir o dan adran 75 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau neu weithgareddau y gellir eu cofrestru o dan FIRS.
Gweithgareddau dylanwad gwleidyddol	Cyfathrebiad, cyfathrebiad cyhoeddus neu ddarpariaeth o arian, nwyddau neu wasanaethau gyda'r bwriad o ddylanwadu ar fater gwleidyddol.

Pennod 1: Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS) yn gynllun dwy haen sy'n sicrhau tryloywder dylanwad tramor yng ngwleidyddiaeth y DU ac yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch gweithgareddau rhai pwerau neu endidau tramor a allai beri risg i ddiogelwch a buddiannau'r DU.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro gofynion haen uwch FIRS. Fe'i bwriedir ar gyfer y rhai a allai fod o fewn cwrpas haen uwch y cynllun i helpu i benderfynu a yw'r gofynion cofrestru yn berthnasol iddynt, ac os felly sut.

Darparwyd canllawiau ychwanegol sy'n benodol i'r sector ar gyfer [busnes, y cyfryngau](#), [elusennau a chymdeithas sifil](#), [y byd academiaidd](#) a'r sectorau [ymchwil ac amddiffyn](#).

Cynhyrchwyd canllawiau ar wahân ar gyfer yr [haen dylanwad gwleidyddol](#). Lle byddai trefniant yn dod o fewn cwrpas yr haen dylanwad gwleidyddol a'r haen uwch, oherwydd ei fod yn cynnwys cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol ar ran pŵer tramor penodol, dim ond cofrestru o dan yr haen uwch sydd ei angen.

Bydd canllawiau ychwanegol hefyd yn cael eu cynhyrchu i amlinellu'r [pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bwerau tramor](#) a bennir o dan yr haen uwch.

Mae canllawiau hefyd ar gael ar y [wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus, hysbysiadau gwybodaeth](#) ac ar [sut mae'r cynllun yn cael ei weinyddu](#).

Bwriad y canllawiau hyn yw egluro gofynion allweddol cynllun FIRS, sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y rhai sydd o fewn cwrpas y cynllun i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol eu hunain.

Pennod 2: Cyflwyniad i'r Haen Uwch

1. Mae'r haen uwch yn ceisio rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phwerau tramor penodol, neu endidau a reolir gan bŵer tramor, a allai beri mwy o risg.
2. Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu (drwy osod rheoliadau yn y senedd) pŵer tramor neu endid a reolir gan bŵer tramor lle maent yn ystyried ei bod yn rhesymol angenrheidiol i amddiffyn diogelwch neu fuddiannau'r DU. Nodir ystyr "pŵer tramor" yn adran 32 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 a nodir yr amodau y mae angen eu bodloni er mwyn i endid gael ei ystyried yn "endid a reolir gan bŵer tramor" yn Atodlen 13 o'r un Ddeddf. Ni ellir pennu unigolion ar yr haen uwch.
3. Gellir dod o hyd i'r pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bŵer tramor a bennir ar yr haen uwch ar hyn o bryd [yma](#). Bydd y rhain yn cael eu hadolygu a gellir eu diwygio (yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol).
4. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu sefydliadau gofrestru lle maent yn ffurfio trefniant gyda phŵer tramor neu endid a reolir gan bŵer tramor penodedig i gynnal gweithgareddau yn y DU yn ôl eu cyfarwyddyd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i endidau penodedig a reolir gan bwerau tramor gofrestru gweithgareddau y maent yn eu cynnal eu hunain yn y DU.
5. Mae'r DU yn parhau i fod yn agored i ymgysylltu a chydweithredu tryloyw â phwerau tramor. Mae'r rhai sy'n cofrestru'n llawn ac yn gywir yn cefnogi gwydnwch y DU a'i sefydliadau yn wyneb bygythiadau gan y wladwriaeth. Nid yw cofrestru trefniant neu weithgaredd ynddo'i hun yn golygu ei fod o reidrwydd yn anghyfreithlon neu'n annymunol. Nid yw FIRS yn atal unrhyw weithgaredd rhag digwydd; ar yr amod bod y trefniadau'n dryloyw, gall gweithgareddau cysylltiedig fynd rhagddynt fel arfer.
6. Mae [Pennod 3](#) yn rhoi trosolwg o ofynion haen uwch y cynllun a sut maent yn berthnasol i'r grwpiau penodol canlynol:
 - a. Y rhai mewn trefniadau gyda phŵer tramor penodol neu endid a reolir gan bŵer tramor;
 - b. Pwerau tramor penodedig; ac
 - c. Endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor.
7. Ni fydd y rhan fwyaf o gofrestriadau o dan yr haen uwch yn cael eu cynnwys ar y gofrestr gyhoeddus. Fodd bynnag, lle mae trefniant cofrestredig yn ymwneud â

chynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol, bydd manylion penodol am y trefniant yn cael eu cyhoeddi. Mae rhagor o wybodaeth yn y [canllawiau ar y wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus](#).

Pennod 3: Gofynion yr Haen Uwch

Gofynion ar gyfer unigolion neu sefydliadau mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor

8. Yn unol ag adran 65 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023, mae'n ofynnol i unigolyn neu sefydliad gofrestru gyda'r cynllun pan fydd yr holl bedwar amod isod yn cael eu bodloni. Argymhellir cwblhau cofrestru ar borth cofrestru ar-lein FIRS¹.

Amodau ar gyfer cofrestru

Amod 1: Mae person yn gwneud [trefniant](#) (boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol) gyda phŵer neu endid tramor penodedig.

Amod 2: Mae'r trefniant hwnnw'n cynnwys "[cyfarwyddyd](#)" gan y pŵer neu'r endid tramor penodedig.

Amod 3: Y cyfarwyddyd yw cynnal "[gweithgareddau perthnasol](#)" yn y DU (boed gan y cofrestrydd ei hun, neu gyda neu drwy rywun arall).

Amod 4: Nad oes unrhyw [esemptiadau](#) i'r berthnasol i'r trefniant na'r gweithgareddau.

9. O dan y cynllun, y trefniant y mae'n rhaid ei gofrestru, nid pob gweithgaredd unigol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i gofrestrwyr ddiweddarau'r wybodaeth sydd wedi'i chofrestru pan fydd "newid sylweddol" i'r wybodaeth (gweler [pennod 9](#)) a hefyd i gydymffurfio ag unrhyw [hysbysiadau gwybodaeth](#).

Amod-1 – Trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig

10. Mae "trefniant" yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Trefniant ffurfiol fel contract;
- Cytundeb nad yw'n gyfreithiol rwymol fel Memorandwm o Ddealltwriaeth;
- Gorchymyn (neu gytundeb tebyg) am nwydd neu wasanaeth, i'w ddilyn gan fil neu anfoneb;

¹Mae ffurfiau cofrestru eraill ar gael hefyd, gan gynnwys ar gyfer amgylchiadau lle byddai cofrestriad yn cynnwys manylion sensitif nad ydynt yn addas ar gyfer y porth cofrestru ar-lein..

- Cytundeb quid pro quo anffurfiol.
11. Nid oes angen cofrestru sgysiau neu ohebiaeth â phŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor nad ydynt yn arwain at drefniant neu gytundeb i gynnal gweithgareddau cofrestradwy yn y DU.
 12. Nodir y pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bŵer tramor a bennir o dan yr haen uwch [yma](#).
 13. Os ffurfir trefniant gyda chyflogai pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor (wrth weithredu yn y swyddogaeth hon), caiff ei drin fel trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig. Er enghraifft, os yw person yn ymrwymo i drefniant gyda gwas sifil o bŵer tramor penodedig mewn perthynas â'i rôl fel gwas sifil, byddai'r amod yn cael ei fodloni. Ni fyddai person sy'n ymrwymo i drefniant gyda gwas sifil o bŵer tramor penodedig ar fater nad yw'n gysylltiedig â'i rôl fel gwas sifil (er enghraifft, os ydynt ar wahân yn ymddiriedolwr elusen) yn bodloni'r amod.
 14. Nid yw cwmnïau sy'n eiddo i, neu'n cael eu rheoli gan, lywodraethau tramor (fel y gall fod yn wir gyda menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth) yn bwerau tramor yn rhinwedd y berchnogaeth neu'r rheolaeth hon. Felly, nid oes angen cofrestru ar gyfer trefniadau gydag endidau masnachol neu academiaidd o wlad y mae ei llywodraeth wedi'i phennu, hyd yn oed os yw'r endidau hyn yn eiddo i'r wladwriaeth neu'n cael eu rheoli gan y wladwriaeth. Dim ond os yw'r endid ei hun wedi'i bennu o dan yr haen uwch y bydd angen cofrestru ar gyfer y trefniadau hyn.
 15. Nid oes unrhyw rwymedigaethau ar bwerau tramor penodedig eu hunain (gan gynnwys pobl a gyflogir yn uniongyrchol gan bwerau tramor penodedig) i gofrestru, ar yr amod nad ydynt yn gwneud camliwiad am eu gweithgareddau na'r swyddogaeth y maent yn gweithredu ynddi. Dim ond y rhai sydd mewn trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig sy'n ofynnol i gofrestru.

Amod-2 - Ystyr "cyfarwyddyd"

16. Gorchymyn neu gyfarwyddyd i weithredu y mae'n rhaid i berson gydymffurfio ag ef, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yw "cyfarwyddyd".
17. Gall y canlynol fod yn enghreifftiau o "gyfarwyddyd" gan bŵer neu endid tramor penodedig:
 - Contract a lofnodwyd gyda phŵer neu endid tramor penodedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgareddau gael eu cynnal yn y DU, neu sy'n cael effaith yn y DU;

- Gorfodaeth neu bwysau arall gan bŵer neu endid tramor penodedig i gynnal gweithgareddau yn y DU (er enghraifft, lle gallai fod canlyniadau negyddol am beidio â chynnal y gweithgaredd);
- Gorchymyn a osodwyd gan bŵer neu endid tramor penodedig sy'n gysylltiedig â darparu nwyddau neu wasanaethau yn y DU.

18. Gellid ystyried bod **cais** gan bŵer neu endid tramor penodedig yn gyfarwyddyd hefyd os, er enghraifft, mae unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae gan y pŵer neu'r endid tramor penodedig bŵer neu awdurdod dros y cofrestrydd;
- mae elfen o reolaeth i'r cais;
- mae budd neu ad-daliad (er enghraifft, taliad, iawndal, ad-daliad costau teithio neu gynhالياeth, cyflogaeth, cyfleoedd busnes, anrhydeddau academiaidd neu driniaeth ffafriol yn y dyfodol) i'w dderbyn o ganlyniad i gydymffurfio â'r cais;
- mae gorfodaeth neu fygythiad ochr yn ochr â'r cais; neu
- mae risg o ganlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â methu â chydymffurfio â'r cais (er enghraifft, colled sylweddol o refeniw).

19. Bydd angen cysylltiad rhwng y cyfarwyddyd a'r gweithgaredd perthnasol (amod 3) er mwyn i'r amod hwn gael ei fodloni. Er enghraifft, os yw cwmni'n derbyn cyfarwyddyd cyffredinol neu gyllid gan bŵer neu endid tramor penodedig ac yn dewis cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cyfarwyddyd neu'r cyllid, yna ni fyddai'r amod yn cael ei fodloni.

20. Nid yw'r ffaith bod gan bŵer tramor penodedig y gallu neu'r hawl i gyfarwyddo gweithgareddau unigolyn neu sefydliad (fel y gall fod yn wir o fewn system gyfreithiol rhai gwledydd) yn sbarduno gofyniad cofrestru. Dim ond lle mae gweithgareddau'n cael eu cyfarwyddo mewn gwirionedd y bydd yr amod hwn yn cael ei fodloni.

21. Er nad yw cyllid gan bŵer neu endid tramor penodedig, ynddo'i hun, yn gyfystyr â chyfarwyddyd, gall ffurfio rhan o gyfarwyddyd os oes amodau ynghlwm wrtho i'w ddefnyddio mewn ffordd benodol. Ni ystyrir grantiau anghyfngedig sy'n rhoi'r ymreolaeth i'r derbynnydd grant ddefnyddio'r cyllid yn y ffordd y maent yn ei gweld yn briodol yn gyfarwyddyd. Pan fydd unigolyn neu sefydliad yn gwneud cais am fath o gyllid (er enghraifft, grant) gan bŵer neu endid tramor penodedig, a bod y grant hwnnw'n cael ei gymeradwyo heb osod amodau penodol ar y gweithgareddau, ni fyddai hyn ynddo'i hun yn gyfystyr â chyfarwyddyd.

22. Pan ddarperir cyllid i gefnogi gwaith sefydliad yn gyffredinol, heb amodau y dylid ei ddefnyddio mewn ffordd benodol, ni fyddai angen cofrestru. Yn yr un modd, pan ddarperir cyllid gan bŵer neu endid tramor penodedig i gefnogi prosiect neu

fenter sy'n digwydd beth bynnag, ac nad yw'r cyllid hwnnw'n dylanwadu ar sut mae'r prosiect neu'r fenter yn cael ei chynnal, nid yw hynny'n gyfystyr â chyfarwyddyd.

23. Nid yw perchnogaeth, neu ran-berchnogaeth sefydliad neu gwmni gan bŵer tramor penodedig, o reidrwydd yn golygu bod gweithgareddau endidau o'r fath yn cael eu cyfarwyddo gan y pŵer tramor. Dylai endidau sy'n eiddo i bwerau tramor penodedig weld [pennod 10](#).
24. Efallai y bydd yn ofynnol i sefydliad sy'n derbyn cyfarwyddyd cyffredinol gan bŵer tramor penodedig gofrestru, lle mae cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU yn rhan anochel o'r cyfarwyddyd. Er enghraifft, efallai y bydd yn ofynnol i sefydliadau diwylliannol, gwleidyddol, ieithyddol neu economaidd sydd â chysylltiadau â phŵer tramor penodedig gofrestru os yw'r pŵer tramor penodedig yn darparu cyfarwyddyd cyffredinol i'r sefydliad i ddilyn amcanion penodol, ac mae gweithgareddau perthnasol yn y DU (amod 3) yn rhan anochel o gyflawni eu hamcanion. Yn yr achosion hyn, mae'n debygol y bydd y sefydliad yn gwneud un cofrestriad sy'n gysylltiedig â'u trefniant cyffredinol gyda'r pŵer tramor, y mae'n ei diweddarau os bydd natur y trefniant neu'r gweithgareddau'n newid (gweler [pennod 9](#)).

Amod–3 - Diffiniad o “weithgareddau perthnasol”

25. Y rhagosodiad yw bod “gweithgareddau perthnasol” yn cynnwys pob gweithgaredd yn y DU. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithgareddau masnachol, gweithgareddau ymchwil a darparu nwyddau a gwasanaethau (ac eithrio lle mae hyn wedi'i [esemptio](#)).
26. Fodd bynnag, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio cwmpas “gweithgareddau perthnasol”, fel bod trefniadau gyda gwahanol bwerau neu endidau tramor penodedig yn ei gwneud yn ofynnol i wahanol fathau o weithgareddau gael eu cofrestru. Gweler y [canllawiau ar gyfer pob gwlad berthnasol](#) am fwy o fanylion am hyn.
27. Dim ond pan gynhelir gweithgaredd yn y DU y mae angen cofrestru. Nid oes ots a yw'r trefniant yn cael ei wneud yn y DU neu dramor, neu ble mae partïon y trefniant wedi'u lleoli. Pan fydd gweithgaredd yn cychwyn dramor, ond yn cael effaith yn y DU, gall hyn fod o fewn cwmpas gofynion cofrestru. Er enghraifft:
- Postiad ar dudalen cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i thargedu at unigolion yn y DU, hyd yn oed os yw wedi'i bostio gan unigolyn dramor.
 - Trosglwyddo arian o unigolyn dramor i unigolyn yn y DU neu i'r gwrthwyneb.

28. Fodd bynnag, lle mae gweithgaredd yn digwydd yn gyfan gwbl dramor (er enghraifft, cyfarfod â Gweinidog y DU yn ystod ymweliad dramor), nid yw hyn o fewn cwmpas y gofynion cofrestru. Mae Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Thiriogaethau Tramor Prydain yn cyfrif fel "dramor" at y dibenion hyn.
29. Dim ond os yw amodau 1, 2 a 4 hefyd yn cael eu bodloni y mae angen cofrestru "gweithgareddau perthnasol", sy'n golygu bod y gweithgareddau'n cael eu cyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, ac nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol. Nid oes angen cofrestru gweithgareddau a gyflawnir mewn partneriaeth ag endidau nad ydynt wedi'u pennu.

Amod-4 - Esemptiadau o'r haen uwch

30. Mae nifer o esemptiadau o'r gofyniad i gofrestru trefniadau neu weithgareddau o dan yr haen uwch (mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodlen 15 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 neu mewn rheoliadau):
- Unrhyw un sy'n gweithredu fel rhan o drefniant y mae Corff Coron y DU yn rhan ohono (er enghraifft, y rhai mewn trefniant amlochrog gyda llywodraeth y DU a llywodraethau tramor penodedig);
 - Unigolion sy'n gweithredu dros bŵer tramor yn eu swyddogaeth swyddogol fel cyflogaion, er enghraifft diplomyddion tramor sydd wedi'u lleoli yn y DU;
 - Aelodau o'r teulu (gan gynnwys partneriaid di-briod) staff cenadaethau diplomyddol, swyddi consylaidd neu genadaethau parhaol sefydliadau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y DU, lle maent yn cefnogi gweithgareddau swyddogol aelod o'u teulu;
 - Cyfreithwyr, wrth iddynt ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i bwerau tramor (er enghraifft, y rhai sy'n cynrychioli pwerau tramor penodedig mewn achos llys);
 - Y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau sy'n rhesymol angenrheidiol i weithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd consylaidd neu genhadaeth barhaol sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU
 - Unrhyw un sy'n gweithredu fel rhan o drefniant y mae corff cyhoeddus y DU yn rhan ohono;
 - Y rhai sy'n cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â threfniant addysg a ariennir (er enghraifft, ysgoloriaeth);
 - Gwasanaethau gweinyddol a thechnegol y llywodraeth (er enghraifft, gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi pasbortau neu fisâu).
31. Am ragor o fanylion ynghylch esemptiadau, gweler [pennod 14](#) o'r canllawiau hyn.

Gofynion ar gyfer pwerau tramor penodedig

32. Nid oes angen i **bwerau tramor** penodedig gofrestru gweithgareddau perthnasol y maent yn eu cyflawni eu hunain, ar yr amod nad yw'r rhai sy'n gweithio iddynt yn gwneud camliwiad ynghylch eu gweithgareddau na'r swyddogaeth y maent yn gweithredu ynddi wrth gyflawni'r gweithgareddau hynny. Pan fo'r gweithgaredd yn cynnwys camliwiad rhaid cofrestru'r gweithgaredd.

Gofynion ar gyfer endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor

33. Mae'n ofynnol i endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor (FPCEs) gofrestru cyn cynnal unrhyw "weithgareddau perthnasol" yn y DU. Mae'n drosedd i FPCE penodedig gynnal gweithgareddau perthnasol oni bai eu bod wedi cofrestru ymlaen llaw.

Pennod 4: Amseriad cofrestru

34. Yn unol ag adran 65 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023, rhaid cwblhau cofrestru “trefniadau gweithgaredd tramor” o fewn 10 diwrnod calendr, gan ddechrau gyda’r diwrnod y gwneir y trefniant, a chyn cynnal unrhyw weithgareddau yn unol â’r trefniant (fel arall cyflawnir trosedd). Er enghraifft, os gwneir trefniant ar 1af Ionawr, rhaid ei gofrestru erbyn 10fed Ionawr. Os yw unrhyw weithgareddau i ddigwydd rhwng 1af a 10fed Ionawr, rhaid cofrestru’r trefniant cyn i’r gweithgareddau hynny ddigwydd. Mae amserlenni gwahanol yn berthnasol i’r [haen dylanwad gwleidyddol](#).
35. Yn achos contract neu gytundeb ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan y ddwy ochr, mae’r diwrnod y gwneir y trefniant yn cyfeirio at y dyddiad y mae’r parti olaf yn llofnodi ac yn dychwelyd y contract neu’r cytundeb.
36. Yn achos cytundeb llafar anffurfiol, mae’r diwrnod y gwneir y trefniant yn cyfeirio at y dyddiad y gwnaed y cytundeb i gynnal gweithgaredd yn y DU. Nid yw sgysiau na gohebiaeth nad ydynt yn arwain at gytundeb i gynnal gweithgareddau yn y DU yn drefniadau y gellir eu cofrestru.
37. Daw gofynion y cynllun i rym ar 1 Gorffennaf 2025. Dylai’r rhai sydd mewn trefniadau parhaus a ddechreuodd cyn y dyddiad hwnnw weld y [canllawiau ar drefniadau sy’n bodoli eisoes](#). Nid oes gofyniad i gofrestru trefniadau blaenorol a ddaeth i ben cyn 1 Gorffennaf 2025.
38. Pan nad yw trefniant yn bodloni’r amodau ar gyfer cofrestru i ddechrau, ond yn dod yn gofrestradwy wedi hynny, rhaid cwblhau’r cofrestriad o fewn 10 diwrnod calendr i’r trefniant ddod yn gofrestradwy a chyn i weithgaredd cofrestru ddigwydd. Er enghraifft, pan fo trefniant gyda phŵer tramor penodedig yn ymwneud â gweithgareddau sy’n digwydd y tu allan i’r DU yn unig, ond yn esblygu wedi hynny i gynnwys cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU, rhaid ei gofrestru o fewn 10 diwrnod i’r cytundeb i ehangu’r trefniant i gynnwys gweithgareddau yn y DU neu, os yw’n gynharach, cyn i’r gweithgaredd yn y DU ddigwydd.
39. Ystyrir bod cofrestriad wedi’i gwblhau cyn gynted ag y caiff ei gyflwyno. Nid oes angen aros am unrhyw gyfathrebu neu gymeradwyaeth bellach gan y Llywodraeth cyn dechrau’r gweithgareddau y cyfeirir atynt wrth gofrestru. Fodd bynnag, lle cyflwynir cofrestriad drwy’r porth cofrestru ar-lein, anfonir e-bost

cadarnhau i'r cyfeiriad e-bost sy'n gysylltiedig â chyfrif FIRS y cofrestrydd ar adeg cyflwyno'r cofrestriad.

Pennod 5: Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn

Trefniadau cofrestradwy

40. Pan fo'r amodau ar gyfer cofrestru o dan yr haen uwch yn cael eu bodloni, yr unigolyn neu'r sefydliad sydd yn y trefniant gyda'r pŵer neu'r endid tramor penodedig sy'n ofynnol i gofrestru (y cyfeirir ato fel "P" yn Neddf Diogelwch Cenedlaethol 2023).
41. Gall yr unigolyn neu'r sefydliad yn y trefniant cofrestradwy ymddiried i drydydd parti lenwi'r ffurflen gofrestru os dymunant; fodd bynnag, nid yw hynny'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol am gydymffurfio.
42. Pan fo sawl parti uniongyrchol i drefniant cofrestradwy, bydd angen i bob parti gofrestru ar wahân. Er enghraifft, pan fo dau sefydliad ar wahân ill dau yn bartion i drefniant gyda phŵer tramor penodedig, bydd angen iddynt ill dau gofrestru ar wahân. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i sawl cyflogai sy'n ymwneud â threfniant cofrestradwy ar gyfer un sefydliad gofrestru; bydd un cofrestriad a wneir gan y sefydliad yn ddigonol yn yr achosion hyn.
43. Pan fydd sefydliad yn gwneud trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig, y sefydliad (yn hytrach na'u gweithwyr) sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gofrestru. Gall unrhyw weithiwr o fewn y sefydliad sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny lenwi'r ffurflen gofrestru. Os na chydymffurfir, bydd yr atebolrwydd troseddol yn disgyn ar y sefydliad yn hytrach na'r unigolyn a gwblhaodd y ffurflen gofrestru (er gweler adrannau 35 ac 81(1) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 sy'n darparu y gallai swyddog cwmni fod yn atebol am weithredoedd y cwmni mewn rhai amgylchiadau). Gweler [pennod 12](#) am fanylion pellach. Dylai cyflogeion y sefydliad weld [pennod 6](#).
44. Pan fydd cyflogai sefydliad yn gwneud trefniant gyda phŵer tramor sydd y tu allan i gwmpas eu cyflogaeth, y cyflogai sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gofrestru fel unigolyn. Er enghraifft:
 - Efallai y bydd yn rhaid i gyflogai cwmni sydd hefyd yn flogiwr yn ei swyddogaeth breifat gofrestru os yw'n gwneud trefniant sy'n ymwneud â'i weithgareddau blogio;

- Efallai y bydd yn rhaid i academydd sy'n cael ei gyflogi gan brifysgol gofrestru os yw'n gwneud trefniant sy'n ymwneud â'i ymchwil breifat ei hun neu gyhoeddiadau cyfnodolion, yn hytrach na'r rôl y mae'n ei chwarae ar gyfer y brifysgol gyfan.

Gweithgareddau cofrestradwy gan endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor

45. Pan fo endid penodedig a reolir gan bŵer tramor (FCPE) ei hun yn cynnal gweithgareddau cofrestradwy yn y DU, yr FPCE penodedig sy'n gyfrifol am gofrestru. Gall unrhyw gyflogai i'r FPCE sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny lenwi'r ffurflen gofrestru. Os na chydymffurfir, bydd yr atebolrwydd troseddol yn disgyn ar yr endid yn hytrach na'r unigolyn a gwblhaodd y ffurflen gofrestru (er gweler adrannau 81 a 35 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 sy'n darparu y gallai swyddog cwmni fod yn atebol am weithredoedd y cwmni mewn rhai amgylchiadau).
46. Fel arall, gall yr FPCE penodedig ymddiried i drydydd parti lenwi'r ffurflen gofrestru os yw'n dymuno; fodd bynnag, nid yw hynny'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol am gydymffurfiaeth.
47. Os yw nifer o gyflogeion FPCE penodedig yn ymwneud â gweithgaredd perthnasol, bydd un cofrestriad a wneir gan yr endid yn ddigonol; nid oes angen i gyflogeion unigol gofrestru ar wahân. Fodd bynnag, dylai cyflogeion yr endid weld [pennod 6](#).

Pennod 6: Canllawiau i gyflogeion, isgontractwyr a phobl eraill sy'n cyflawni gweithgareddau o fewn cwmpas FIRS

Trefniadau cofrestradwy

48. Mae'r cyfrifoldeb i gofrestru yn gorwedd gyda'r person sy'n gwneud y trefniant gyda'r pŵer tramor penodedig neu'r endid penodedig a reolir gan bŵer tramor (FPCE).
49. Fodd bynnag, lle nad yw trefniant wedi'i gofrestru, mae'n drosedd i unrhyw un sy'n gweithredu o dan y trefniant gyflawni gweithgareddau perthnasol yn unol â'r trefniant hwnnw (gweler adran 67(2) a (3) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023).
50. Dylai cyflogeion ac isgontractwyr sydd wedi cael y dasg o gyflawni gweithgaredd yn unol â threfniant cofrestradwy gymryd camau rhesymol yn gyntaf i wirio gyda'u cyflogwr neu gorff contractio eu bod wedi cofrestru'r trefniant neu'r gweithgaredd. Mae diogelwch yn y ddeddfwriaeth lle mae'r person wedi cymryd pob cam rhesymol sydd ar gael iddynt i wirio a yw'r trefniant wedi'i gofrestru ai peidio ac yn credu ei fod wedi (gweler adran 67(4) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023).
51. Dylai unrhyw gyflogeion neu isgontractwyr sy'n credu bod gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol wedi'i darparu wrth gofrestru gysylltu â'r cofrestrydd i ofyn iddynt gywiro neu ddiweddarau'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru. Ni ddylent fwrw ymlaen â gweithgareddau nes bod y wybodaeth hon wedi'i diweddarau neu ei chywiro.
52. Nid oes dyletswydd benodol ar unrhyw gyflogeion, isgontractwyr na phersonau eraill sy'n cynnal gweithgareddau i gynnal diwydrwydd dyladwy yn rhagweithiol i weld pwy sy'n cyfarwyddo'r gweithgaredd. Y peth allweddol yw a oes gan y bobl sy'n cynnal y gweithgareddau wybodaeth neu ffeithiau ar gael iddynt sy'n awgrymu eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy (gweler adran 67(3) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023) – ac os oes ganddynt wybodaeth neu ffeithiau o'r fath, yna dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru (gweler adran 67(4)).

53. Ni fyddai cyflogeion ac isgontractwyr yn cyflawni unrhyw drosedd, pe na bai ganddynt unrhyw ffordd o wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy; er enghraifft lle:

- mae gweithgareddau'r cyflogeion neu'r isgontractwyr yn fasnachol, academiaidd neu elusennol eu natur yn unig, heb unrhyw wybodaeth i awgrymu bod y gweithgareddau wedi cael eu cyfarwyddo gan bŵer neu endid tramor penodedig;
- maent yn gwybod bod yr endid y maent yn gweithio gydag ef yn eiddo i'r wladwriaeth, yn cael ei reoli gan y wladwriaeth neu wedi'i gysylltu'n agos â'r wladwriaeth fel arall, ond nid oes ganddynt unrhyw reswm i wybod bod y wladwriaeth wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni mewn gwirionedd;
- nid amcanion strategol na gwleidyddol y wladwriaeth yw'r amcanion y maent yn ceisio'u cyflawni trwy eu gweithgareddau, ond yn hytrach amcanion yr endid penodol y maent yn gweithio gydag ef, ac nid oes ganddynt unrhyw wybodaeth i awgrymu bod y wladwriaeth wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau hyn.

54. Nid oes angen i gyflogeion ac isgontractwyr sy'n cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sydd o fewn cwrdd cofrestru gymryd unrhyw gamau i gydymffurfio â FIRS. Er enghraifft, lle mae sefydliad wedi cael cyfarwyddyd i drefnu digwyddiad, nid oes angen i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau glanhau i baratoi ar gyfer y digwyddiad gymryd unrhyw gamau i gydymffurfio â FIRS. Er mwyn i'w gweithgareddau fod o fewn cwrdd, byddai angen i'w gweithgareddau ffurfio rhan anochel o'r "cyfarwyddyd" gan y pŵer tramor penodedig, i'r graddau na ellid cyflawni amcanion y pŵer tramor penodedig heb eu gweithgareddau.

55. Mae darpariaethau gwahanol yn bodoli mewn perthynas â chyflogeion ac isgontractwyr sy'n cynnal gweithgareddau y gellir eu cofrestru o dan haen dylanwad gwleidyddol y cynllun. Felly, bydd angen i gyflogeion ac isgontractwyr sefydlu pa haen o'r cynllun y mae'r gweithgaredd y maent yn ei gyflawni yn ymwneud â hi, os ydynt yn credu bod y gweithgaredd yn rhan o drefniant y gellir ei gofrestru.

Astudiaeth achos 1 (mae'n ofynnol i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgareddau wirio a yw'r trefniant wedi'i gofrestru): Mae asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus yn ymrwmo i drefniant gyda Gweinyddiaeth Buddsoddi Gwlad A, sydd wedi'i bennu o dan yr haen uwch, i hyrwyddo Gwlad A i fuddsoddwyr posibl yn y DU. Yna mae'r asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus yn gwahodd nifer o fuddsoddwyr presennol i gyflwyno mewn cynhadledd yn y DU. Mae'r asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus yn anfon copi ymlaen llaw o'r rhaglen atynt, sy'n nodi'n glir eu bod wedi gweithio gyda'r Weinyddiaeth Materion Economaidd wrth drefnu'r gynhadledd.

Mae'n ofynnol i'r asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus gofrestru. Gan fod yr asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus wedi datgan yn glir eu trefniant gyda Weinyddiaeth Buddsoddi Gwlad A, a bod y gweithgareddau'n amlwg yn ceisio hyrwyddo buddiannau'r Weinyddiaeth, dylai'r buddsoddwyr presennol sy'n cyflwyno yn y gynhadledd wybod yn rhesymol eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant y gellir ei gofrestru, felly dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cyflwyno eu cyflwyniad.

Astudiaeth achos 2 (nid oes gan y rhai sy'n ymwneud â'r gweithgareddau unrhyw reswm i gredu eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy):

Mae cwmni ceir trydan yn eiddo i Lywodraeth Gwlad B, sydd wedi'i bennu o dan yr haen uwch. Mae Llywodraeth Gwlad B yn cyfarwyddo'r cwmni i flaenoriaethu marchnad y DU ar gyfer gwerthu'r ceir. Yna mae'r cwmni ceir yn ymrwymo i drefniant gyda deliwr ceir yn y DU i werthu eu ceir i yrwyr y DU.

Mae'n ofynnol i'r cwmni ceir trydan gofrestru. Mae deliwr ceir y DU yn gwybod bod y cwmni yn eiddo i Lywodraeth Gwlad B, fodd bynnag, dim ond hyrwyddo buddiannau masnachol y cwmni ceir y mae eu gweithgareddau ac nid oes ganddynt unrhyw wybodaeth i awgrymu eu bod wedi cael eu cyfarwyddo gan Lywodraeth Gwlad B. Felly gallant fwrw ymlaen â'u gweithgareddau heb gymryd camau i gydymffurfio â FIRS.

Gweithgareddau cofrestradwy gan endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor

56. Pan fo endid penodedig a reolir gan bŵer tramor yn cyflawni gweithgareddau perthnasol ei hun, mae'r cyfrifoldeb i gofrestru yn gorwedd ar yr endid ei hun yn hytrach na'i gyflogeion unigol.

57. Fodd bynnag, ni ddylai cyflogeion yr endid gyflawni gweithgareddau perthnasol oni bai eu bod wedi cael eu cofrestru gan eu cyflogwr ymlaen llaw.

Pennod 7: Enghreifftiau o drefniadau a gweithgareddau sy'n galw am gofrestru (a heb fod angen cofrestru) o dan yr haen uwch

At ddiben yr enghreifftiau hyn, tybir bod pob gweithgaredd yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol" ac felly bodlonir amod 3 ym mhob achos..

Enghraifft 1 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan endid penodol a reolir gan bŵer tramor): Mae Gweinyddiaeth Newyddion a Phropaganda Gwlad A wedi'i phenu o dan yr haen uwch. Mae'r Weinyddiaeth yn cysylltu â dylanwadwr yn y DU, gan ofyn iddynt gynhyrchu cynnwys i'w lanlwytho i lwyfannau rhannu fideos gan fynegi cefnogaeth i Lywodraeth Gwlad A, a gwrthbrofi honiadau ei bod yn gorthrymu ei phobl. Mae'r dylanwadwr yn cynhyrchu'r fideos ac yn cael cynnig talebau fel gwobr.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Gweinyddiaeth Newyddion a Phropaganda Gwlad A, y mae'r dylanwadwr mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod y Weinyddiaeth yn gwneud cais i'r dylanwadwr, gan gynnig gwobr iddynt yn gyfnewid.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys cynhyrchu fideos) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r dylanwadwr gofrestru.

Enghraifft 2 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Gweinyddiaeth Dramor Gwlad B wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae swydd gonsylaidd yn y DU, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Dramor, yn contractio cwmni argraffu a reprograffeg yn y DU i gynhyrchu taflenni sy'n hysbysebu Gwlad B fel cychfan i dwristiaid.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Gweinyddiaeth Dramor Gwlad B (a'r swydd gonsylaidd sy'n dod oddi tani), y mae cwmni argraffu a reprograffeg y DU mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod contract wedi'i lofnodi rhwng y swydd gonsylaidd a'r cwmni argraffu a reprograffeg.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys argraffu taflenni) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol. Nid yw argraffu taflenni hyrwyddo twristiaeth yn weithgaredd sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi gweithrediad effeithlon cenhadaeth ddiplomyddol.

Felly mae'n ofynnol i'r **cwmni argraffu a reprograffeg** gofrestru.

Enghraifft 3 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Awdurdod Hedfanaeth Sifil Gwlad C, sydd wedi'i bennu ar yr haen uwch, yn cysylltu â chwmni hedfan. Mae Awdurdod Hedfanaeth Sifil Gwlad C yn gofyn i'r cwmni hedfan gynyddu nifer yr hediadau rhwng y DU a Gwlad C ac yn cynnig slotiau glanio blaenoriaeth iddynt a mynediad VIP i gyfleusterau yn y meysydd awyr yng Ngwlad C. O ganlyniad, mae'r cwmni hedfan yn ychwanegu llwybr ychwanegol o'r DU i ddinas o fewn Gwlad C.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Awdurdod Hedfanaeth Sifil Gwlad C, y mae'r cwmni hedfan mewn trefniant ag ef, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod Awdurdod Hedfanaeth Sifil Gwlad C yn gwneud cais i'r cwmni hedfan, gan gynnig gwobr iddynt yn gyfnewid am gynyddu nifer yr hediadau rhwng y DU a Gwlad C.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys gweithredu'r llwybr ychwanegol o'r DU) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol"

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **cwmni hedfan** gofrestru.

Enghraifft 4 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae prosiectau cwmni sydd wedi'i leoli yn y DU yn cael eu hariannu a'u cefnogi'n uniongyrchol gan Lywodraeth Gwlad D, sydd wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae swyddogion llywodraeth Gwlad D yn gofyn i'r cwmni dargedu cyfran o'r cyllid at gaffael arbenigedd arbenigol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol ac yn cyfarwyddo'r cwmni i gynnal cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio a chydweithio yn y DU i godi eu proffil gydag arbenigwyr diwydiant y DU.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Llywodraeth Gwlad D, y mae'r cwmni mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod y cwmni'n cael cyllid ac yn cael ei gyfarwyddo i'w ddefnyddio i gynnal gweithgareddau penodol.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod yr holl weithgareddau (gan gynnwys cynnal y digwyddiadau) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **cwmni** gofrestru.

Enghraifft 5 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Adran Materion Diwylliannol (DCA) Gwlad E wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae swyddog sy'n gweithio i'r DCA yn Llysgenhadaeth y DU Gwlad E yn cyfarfod ag entrepreneur proffil uchel yn y DU. Maent yn cynnig arian iddo i hyrwyddo nifer o raglenni diwylliannol sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau academiaidd y DU yn weithredol. Mae'r entrepreneur yn hyrwyddo'r rhaglenni mewn digwyddiadau busnes proffil uchel ac yn derbyn yr arian fel ad-daliad.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod y DCA, y mae'r entrepreneur mewn trefniant ag ef, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod yr entrepreneur yn cael cynnig arian i gynnal gweithgareddau.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys hyrwyddo rhaglenni diwylliannol) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **entrepreneur** gofrestru.

Enghraifft 6 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Gweinyddiaeth Diogelwch ac Amddiffyn Gwlad F wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae swyddog o'r Weinyddiaeth Diogelwch ac Amddiffyn yn cyfarfod â pherson busnes sydd i fod i fynychu cynhadledd yn y DU. Mae'r swyddog yn gofyn i'r person busnes ddefnyddio ei rwydwaith yn y DU i drefnu i nifer o arbenigwyr, sy'n mynychu'r gynhadledd, gael eu cysylltu a'u gwahodd i gyflwyno mewn digwyddiad yn y dyfodol. Mae'r person busnes yn cydymffurfio â'r cais oherwydd, yn gyfnewid, eu bod yn cael cynnig statws preswyllo parhaol yng Ngwlad F.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod y Weinyddiaeth Diogelwch ac Amddiffyn, y mae'r person busnes mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod y Weinyddiaeth Diogelwch ac Amddiffyn yn gwneud cais i'r person busnes, gan gynnig statws preswyllo parhaol iddynt yng Ngwlad F fel gwobr.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys y cyswllt a wneir â'r arbenigwyr a'r gwahoddiad i ddigwyddiad yn y dyfodol) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **person busnes** gofrestru.

Enghraifft 7 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Llywodraeth Gwlad G wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae deddfau Gwlad G yn galluogi'r llywodraeth i fynnu bod ei wladolion yn cynnal gweithgareddau ar gyfer y wladwriaeth gyda dedfrydau carchar posibl i'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Mae swyddog llywodraeth yn mynd at wladolyn o'r wlad sydd ar fin teithio i'r DU at ddibenion astudio ac yn gofyn iddo drefnu gwrthdystiad i gefnogi Llywodraeth Gwlad G. Mae'r gwladolyn yn cydymffurfio â'r cais ac yn trefnu'r gwrthdystiad.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Llywodraeth Gwlad G, y mae'r dinesydd mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod Llywodraeth Gwlad G yn gwneud cais i un o'i dinasyddion, ac mae'r dinesydd o dan rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys trefnu gwrthdystiad) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i wladolyn Gwlad G gofrestru.

Enghraifft 8 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae sefydliad hawliau dynol wedi gwahodd gwleidydd gwrthbleidiol o Wlad H i draddodi araith yn y DU. Mae Llywodraeth Gwlad H wedi'i phennu o dan yr haen uwch, ac mae cyflogeion y sefydliad hawliau dynol wedi wynebu aflonyddu yn hanesyddol am eu gwaith yng Ngwlad H nad yw Llywodraeth Gwlad H wedi'i gondemnio. Mae llysgenhadaeth Gwlad H yn y DU yn galw pennaeth y sefydliad hawliau dynol ac yn dweud wrtho am ganslo'r araith gan y gwleidydd gwrthbleidiol, gan awgrymu os na fydd yn gwneud hynny, y bydd canlyniadau i'r sefydliad a'i staff. Mae pennaeth y sefydliad yn pryderu y gallai methu â chydymffurfio arwain at aflonyddu pellach yn erbyn eu staff yng ngwlad H, felly mae'n canslo'r araith.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod llysgenhadaeth Gwlad H, y mae'r sefydliad hawliau dynol mewn trefniant â hi, yn rhan o lywodraeth sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod y llysgenhadaeth yn dweud wrth y sefydliad hawliau dynol am weithredu, ac yn awgrymu bod canlyniadau posibl i staff y sefydliad yng Ngwlad H os bydd yr araith yn mynd yn ei blaen.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys canslo araith) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **sefydliad hawliau dynol** gofrestru.

Enghraifft 9 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan asiantaeth neu awdurdod llywodraeth dramor benodedig): Mae Llywodraeth gyfan Gwlad I wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gan gynnwys holl asiantaethau ac awdurdodau'r Llywodraeth. Mae asiantaeth yn eistedd o dan y Weinyddiaeth Dwristiaeth ac yn gyfrifol am hyrwyddo twristiaeth i'r wlad. Mae'r asiantaeth yn ymrwymo i gontract gydag ymgynghorydd, sy'n cytuno i gynnal digwyddiad yn y DU sy'n hyrwyddo gwlad A fel cyrchfan dwristaidd i wladolion y DU.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod yr asiantaeth, y mae'r ymgynghorydd mewn trefniant â hi, wedi'i phennu o dan yr haen uwch.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod yr ymgynghorydd yn ymrwymo i gontract gyda phŵer tramor penodol (yr asiantaeth).

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys cynnal digwyddiad hyrwyddo twristiaeth) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **ymgyngorydd** gofrestru.

Enghraifft 10 (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Llywodraeth Gwlad J wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae gwladolyn o Wlad J, nad oes ganddo gysylltiadau â'r Llywodraeth, yn ymgysylltu ag academyddion mewn prifysgol yn y DU, sydd wedyn yn cytuno i ymgymryd â phrosiect ymchwil yn y DU.

Nid yw Amod 1 wedi'i fodloni gan fod y gwladolyn yn annibynnol ar y llywodraeth benodedig.

Nid yw Amod 2 wedi'i fodloni gan nad oes cyfarwyddyd gan y llywodraeth dramor benodedig.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys gweithgareddau ymchwil) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Gan nad yw amodau 1 a 2 wedi'u bodloni, nid oes angen i wladolyn gwlad J na'r academyddion yn y DU gofrestru. **Nid** yw pennu llywodraeth dramor yn golygu bod angen cofrestru ar gyfer pob gweithgaredd gan y dinasyddion neu'r endidau o'r wlad honno.

Enghraifft 11 (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Llywodraeth Gwlad K wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae elusen sydd wedi'i lleoli yn y DU yn derbyn rhoddion mynych gan Lywodraeth Gwlad K. Er bod y rhoddion yn cefnogi gwaith ac achos yr elusen, nid yw'n cael ei chyfarwyddo i wario'r cyllid hwn mewn ffordd benodol.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Llywodraeth Gwlad K, y mae'r elusen mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Nid yw Amod 2 wedi'i fodloni gan nad yw'r elusen wedi'i chyfarwyddo i wario'r cyllid a dderbynnir i gynnal gweithgareddau penodol.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys gweithgareddau elusennol) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Gan nad yw amod 2 wedi'i fodloni, **nid** oes angen i'r elusen gofrestru.

Enghraifft 12 (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Llywodraeth Gwlad L wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae cwmni o'r DU mewn contract gyda menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yng ngwlad L. Er bod system wleidyddol a chyfreithiol y wlad yn rhoi'r hawl i'r Llywodraeth reoli'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, mae eu gweithrediad o ddydd i ddydd yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae eu gweithgareddau o natur fasnachol yn unig. Fel rhan o'r contract, mae'r cwmni o'r DU yn cyflenwi cydrannau a ddefnyddir i gynhyrchu cynhyrchion y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth.

Nid yw Amod 1 wedi'i fodloni oherwydd, er bod y cwmni o'r DU mewn trefniant gyda menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, nad yw'r fenter honno sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn endid penodedig nac yn rhan o'r pŵer tramor penodedig.

Nid yw Amod 2 wedi'i fodloni oherwydd, er bod contract ar waith gyda menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, nad oes unrhyw gyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod pob gweithgaredd (gan gynnwys cyflenwi cydrannau) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Gan nad yw amodau 1 a 2 wedi'u bodloni, **nid** oes angen i'r cwmni yn y DU gofrestru.

Pennod 8: Gwybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru

58. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru (fel y darperir ar ei chyfer mewn rheoliadau) wedi'i nodi yn y [canllawiau ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus](#). Bydd y wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar union amgylchiadau'r cofrestrai, y trefniant a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal. Bydd y ffurflen gofrestru ar-lein yn cyfarwyddo cofrestryddion i ddarparu'r wybodaeth berthnasol yn ôl eu hamgylchiadau eu hunain.

59. Bydd angen y wybodaeth ganlynol ym mhob achos:

- Disgrifiad o natur a ffurf y trefniant;
- Enw'r pŵer tramor penodedig neu'r endid penodedig a reolir gan bŵer tramor sy'n cyfarwyddo'r gweithgaredd;
- Disgrifiad o'r gweithgareddau i'w cynnal, gan gynnwys eu natur, eu pwrpas ac unrhyw ganlyniadau a geisir;
- Manylion dyddiadau cychwyn a gorffen y gweithgareddau;
- Manylion yr unigolyn neu'r sefydliad a fydd yn cynnal y gweithgareddau; a
- Manylion sy'n ymwneud â'r cofrestrai (gan gynnwys cyfeiriad a manylion cyswllt).

Pennod 9: Gofynion i ddiweddaru cofrestriad pan fydd “newid sylweddol”

60. Yn unol ag adran 74(5) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023, lle mae newid sylweddol i wybodaeth a gofrestrwyd o dan y cynllun, rhaid diweddaru'r wybodaeth o fewn 14 diwrnod calendr, gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r newid yn dod i rym. Er enghraifft, os yw'r newid yn dod i rym ar 1 Ionawr, rhaid cofrestru'r newid erbyn 14 Ionawr.

61. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad hwn o reidrwydd yn golygu bod angen diweddaru cofrestriadau bob tro y trefnir neu y cynhelir gweithgaredd newydd. Pan fo gweithgaredd yn cael ei ailadrodd a'i gynnal yn yr un ffordd ac at yr un diben â'r gweithgaredd gwreiddiol a gofrestrwyd, nid yw hynny'n sbarduno gofyniad i gofrestru newid sylweddol.

62. Dyma enghreifftiau o'r hyn a all fod yn newid sylweddol.

- Newid yn ffurf y trefniant, er enghraifft lle mae trefniant quid pro quo anffurfiol yn cael ei ffurfioli trwy gontract.
- Math newydd o weithgaredd sy'n cael ei gynnal. Er enghraifft, lle roedd trefniant cofrestredig yn wreiddiol yn ymwneud â gweithgaredd ymchwil yn unig ac mae bellach yn ymwneud â gweithgaredd masnachol.
- Newid yn yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n cynnal y gweithgareddau (nid yw hyn yn cynnwys lle mae cyflogai newydd o'r un sefydliad yn dod yn rhan o'r gweithgareddau).
- Newid sylweddol yn y dyddiad cychwyn neu derfyn disgwyliedig ar gyfer gweithgareddau (er enghraifft, oedi neu estyniad sylweddol i weithgareddau, wrth ystyried hyd cyffredinol y gweithgareddau).
- Newid sylweddol i bwrpas y gweithgareddau.
- Daw pŵer tramor penodedig ychwanegol o wlad wahanol yn rhan o'r trefniant.

63. Lle gellid deall yn rhesymol bod gweithgaredd yn un newydd o'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru hyd yn oed os nad yw wedi'i grybwyll yn benodol, ni fyddai hyn yn gyfystyr â newid sylweddol. Er enghraifft, os yw'r gweithgareddau'n golygu cyflawniarcheb am nwydd neu wasanaeth, gellid deall yn rhesymol bod gweithgareddau fel cyhoeddi anfoneb neu dderbynneb, neu gyfathrebu â'r cleient i egluro eu hanghenion mewn perthynas â'r archeb yn rhai newydd heb eu crybwyll yn benodol.

64. Pwrpas y gofyniad i ddiweddarau gwybodaeth pan fo newid sylweddol yw sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i fod yn gywir ac yn gyflawn. Felly, ni fyddai newidiadau i drefniant neu weithgareddau cofrestradwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrai ddiweddarau newid sylweddol, os yw'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru yn dal i fod yn gywir ac yn gyflawn. Er enghraifft, nid yw newidiadau bach i fanylion y trefniant yn sbarduno gofyniad i ddiweddarau newid sylweddol, os yw'r disgrifiad cyffredinol o'r trefniant a ddarparwyd wrth gofrestru yn parhau i fod yn gywir.

Engbreiffiau o gydymffurfiaeth

Achos 1 (yn seiliedig ar enghraifft 2 o [bennod 7](#)) (cofrestru untro heb unrhyw ddiweddariadau): Mae'r cwmni argraffu a reprograffeg yn cofrestru eu trefniant gyda'r swydd gonsylaidd, gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Natur a ffurf y trefniant: Contract gyda swydd gonsylaidd gwlad B yn y DU.

Gweithgareddau i'w cyflawni: Argraffu taflenni sy'n hysbysebu gwlad B fel cyrchfan dwristaidd.

Yna mae'r cwmni argraffu a reprograffeg yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol:

Mae'r cwmni'n e-bostio'r swydd gonsylaidd i gadarnhau nifer a maint y taflenni sydd eu hangen. Gan fod yr e-bost hwn yn rhan o'r gweithgareddau a grybwyllir wrth gofrestru (argraffu taflenni), nid oes angen unrhyw gamau pellach i gydymffurfio â FIRS.

Mae'r cwmni'n printio taflen sampl ac yn ei chyflwyno i'r swydd gonsylaidd. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o'r gweithgareddau a grybwyllwyd wrth gofrestru (argraffu taflenni), nid oes angen unrhyw gamau pellach i gydymffurfio â FIRS.

Yna mae'r cwmni'n argraffu'r holl daflenni a ofynnwyd amdanynt fel rhan o'r archeb. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o'r gweithgareddau a grybwyllwyd wrth gofrestru (printio taflenni), nid oes angen unrhyw gamau pellach i gydymffurfio â FIRS.

Yna mae'r cwmni'n anfon anfoneb i'r swydd gonsylaidd. Gellid yn rhesymol awgrymu bod anfoneb wedi'i chyflwyno o'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru, o ystyried y byddai'n agwedd ddisgwyliedig o drefniant masnachol.

Yn yr enghraifft hon, mae cofrestriad untro yn gyfystyr â chydymffurfiaeth, heb fod angen unrhyw ddiweddariadau i'r wybodaeth a ddarparwyd.

Achos 2 (yn seiliedig ar enghraifft 5 o [bennod 7](#)) (mae angen diweddariadau i'r cofrestriad):

Mae'r entrepreneur yn cofrestru ei drefniant gydag Adran Materion Diwylliannol Gwlad E, gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Natur a ffurf y trefniant: Trefniant anffurfiol gyda thaliad i'w ddarparu ar ôl cwblhau gweithgareddau.

Gweithgareddau i'w cynnal: Hyrwyddo rhaglenni diwylliannol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau academaidd y DU, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau ffisegol. Mae'r rhaglenni diwylliannol i gynnwys dosbarthiadau coginio, digwyddiadau trochi iaith, arddangosfeydd celf draddodiadol a thystiolaethau gan ymwelwyr diweddar â gwlad E.

Personau i gynnal y gweithgareddau: Fi fy hun.

Yna mae'r entrepreneur yn cynnal y gweithgareddau canlynol.

Mae'r entrepreneur yn rhannu post ar gyfryngau cymdeithasol am raglen ddiwylliannol sy'n cael ei chynnal gan brifysgol yn y DU. Gan fod y gweithgaredd hwn yn rhan o'r gweithgareddau a grybwyllwyd wrth gofrestru (hyrwyddo rhaglenni diwylliannol), nid oes angen unrhyw gamau pellach i gydymffurfio â FIRS.

Yna mae'r entrepreneur a'r Adran Materion Diwylliannol yn cytuno i ffurfioli'r trefniant a llofnodi contract. Mae'r entrepreneur hefyd yn gofyn i'w fab, sydd â mwy o arbenigedd technegol, gynhyrchu cyfres o fideos yn hysbysebu'r rhaglen ddiwylliannol. Gan fod hyn yn cynrychioli newid yn natur a ffurf y trefniant a newid i'r bobl sy'n cyflawni'r gweithgareddau, rhaid i'r entrepreneur ddiweddarau'r wybodaeth wrth gofrestru.

Yna mae'r entrepreneur yn mynychu cynhadledd lle mae'n dosbarthu taflenni sy'n hysbysebu'r rhaglen ddiwylliannol. Gan fod y gweithgaredd hwn yn rhan o'r gweithgareddau a grybwyllwyd wrth gofrestru (hyrwyddo rhaglenni diwylliannol), nid oes angen unrhyw gamau pellach i gydymffurfio â FIRS.

Yna gofynnir i'r entrepreneur gan yr Adran Materion Diwylliannol gynnal darn o ymchwil i ddealltwriaeth o ddiwylliant gwlad E ymhlith gwladolion y DU. Gan fod hyn yn cynrychioli gweithgaredd newydd nad yw wedi'i grybwyll wrth gofrestru, rhaid i'r entrepreneur ddiweddarau'r gofrestriad a darparu manylion yr ymchwil i'w chynnal.

Yn yr enghraifft hon, mae'n ofynnol i'r entrepreneur ddiweddarau'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru ar adegau priodol.

Pennod 10: Canllawiau ar gyfer mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth o wledydd y mae eu llywodraeth wedi'i phennu

65. Mae'r adran hon ar gyfer mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth ac endidau tebyg eraill (er enghraifft, cronfeydd cyfoeth sofran) o wledydd y mae eu llywodraeth wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Dylai'r rhai sy'n gweithio mewn partneriaethau â mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth o'r gwledydd hyn weld [pennod 11](#).

66. Nid yw perchnogaeth, cyllid na dull arall o reoli gan bŵer tramor penodedig ynddo'i hun yn sbarduno gofyniad cofrestru ar y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, ac nid yw'n gwneud y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn rhan o'r pŵer tramor penodedig. Dim ond pan fo menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, ei hun, wedi'i phennu mewn rheoliadau, neu pan fo pŵer tramor penodedig yn ei chyfarwyddo i gynnal, neu drefnu, gweithgareddau perthnasol yn y DU y bydd yn ofynnol iddi gofrestru.

67. Pan fo cyflogeion pŵer tramor penodedig (er enghraifft, gweision sifil) yn rhan o fwrdd y cwmni, a bod y bwrdd (yn ei gyfarwydd) yn cyfarwyddo'r fenter i gynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU:

- Nid oes angen cofrestru os yw'r gweithgareddau perthnasol hynny er budd masnachol y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn unig ac nad oes cyfarwyddyd penodol gan y pŵer tramor penodedig.
- Efallai y bydd angen cofrestru os yw'r gweithgareddau perthnasol hynny'n bennaf i hyrwyddo buddiannau'r pŵer tramor.
- Efallai y bydd angen cofrestru os yw system wleidyddol gwlad y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn caniatáu i'r Llywodraeth gael rheolaeth effeithiol dros y bwrdd (er enghraifft, os gall aelodau'r Llywodraeth o'r bwrdd ddiystyru pleidleisiau aelodau eraill y bwrdd) a bod y Llywodraeth mewn gwirionedd yn arfer y rheolaeth hon i gyfarwyddo gweithgareddau yn y DU neu os yw'r bygythiad iddynt arfer y rheolaeth hon yn dylanwadu ar benderfyniad y bwrdd.

68. Pan fydd menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn cynnal gweithgareddau y mae'n penderfynu arnynt ei hun, heb gyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig, nid oes angen cofrestru. Yr unig eithriad fyddai pe bai'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth ei hun wedi'i phennu mewn rheoliadau o dan yr haen uwch.

Enghraifft 13 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig drwy fwrdd y cwmni):

Mae plaid lywodraethol Gwlad M wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio gweithgareddau perthnasol. Mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth o'r wlad yn ymwneud â chynhyrchu offer telathrebu. Mae dau o'r deg aelod o'r bwrdd yn cael eu cyflogi gan y blaid lywodraethol ac mae strwythur llywodraethu'r fenter yn caniatáu iddynt wrth-wneud pleidleisiau aelodau eraill y bwrdd. Mae'r ddau aelod o'r bwrdd o'r Llywodraeth, gyda chytundeb gweddill y bwrdd, yn cyfarwyddo'r cwmni i ddilyn partneriaeth â chwmni yn y DU sy'n ymwneud â gosod ceblau ffibr optig. Mae plaid lywodraethol Gwlad M yn credu, drwy wneud hynny, y gallai gyflwyno'r achos dros gyfranogiad yn y dyfodol gan fusnesau o'r wlad mewn prosiectau seilwaith ar raddfa fawr yn y DU. Yna mae'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn cytuno i gydweithio â'r cwmni yn y DU drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i osod y ceblau.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Llywodraeth Gwlad M, y mae'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth mewn trefniant â hi, yn bŵer tramor penodedig.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod aelodau'r bwrdd o'r pŵer tramor penodedig yn cyfarwyddo'r cwmni a bod y gweithgareddau i hyrwyddo buddiannau'r pŵer tramor penodedig. Er nad yw cyfarwyddyd gan y bwrdd ynddo'i hun yn gyfystyr â chyfarwyddyd gan y pŵer tramor penodedig, yn yr amgylchiad hwn mae'r cyfarwyddyd yn benodol gan aelodau'r bwrdd sy'n cynrychioli'r blaid lywodraethol, y mae eu barn a'u pleidleisiau'n dal mwy o bwysau na'r aelodau bwrdd eraill.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod ffurfio'r bartneriaeth â'r cwmni yn y DU a gosod ceblau ffibr optig yn gyfystyr â gweithgareddau perthnasol.

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru.

Nid oes angen i'r cwmni yn y DU gofrestru gan nad ydynt mewn trefniant uniongyrchol â Llywodraeth Gwlad M. Fodd bynnag, pe bai ganddynt reswm i gredu eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy, yna byddai'n rhaid iddynt wirio bod y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi cofrestru'r trefniant.

Enghraifft 14 (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig): Mae Llywodraeth Gwlad N wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio gweithgareddau perthnasol. Mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth o'r wlad yn ymwneud â chynhyrchu offer telathrebu ac mae dau o'r deg aelod o'r bwrdd o'r Llywodraeth. Mae cyflogai i'r fenter yn nodi bod un o'r peiriannau printio yn eu swyddfa yn y DU yn ddifffgiol ac felly'n prynu un newydd.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod Llywodraeth Gwlad N, sy'n berchen ar y cwmni ac felly mewn trefniant ag ef, yn bŵer tramor penodedig.

Nid yw **Amod 2** wedi'i fodloni oherwydd, tra bod aelodau'r Llywodraeth yn eistedd ar fwrdd y cwmni, bod y gofyniad am beiriant printio newydd wedi'i nodi gan gyflogai i'r cwmni ac nid oes unrhyw gyfranogiad gan y Llywodraeth.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod prynu peiriant printio newydd yn ffurfio "gweithgaredd perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Gan nad yw amod 2 wedi'i fodloni, **nid** oes angen i'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru.

Pennod 11: Canllawiau i'r rhai sy'n gweithio gyda mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth ac endidau eraill sydd â chysylltiadau agos â phwerau tramor penodedig

69. Lle mae pŵer tramor wedi'i bennu, nid yw hynny'n golygu bod pob endid sy'n cael ei reoli gan y pŵer tramor hwnnw hefyd wedi'i bennu. Dim ond os cânt eu henwi fel endid penodedig a reolir gan bŵer tramor y byddai'r endidau hyn yn cael eu hystyried yn benodedig.
70. Felly, dim ond os yw'r endidau eu hunain wedi'u pennu y byddai'n rhaid i'r rhai sy'n cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU ar gyfarwyddyd endidau a reolir gan bŵer tramor (er enghraifft, mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth neu gronfeydd cyfoeth sofran) gofrestru.
71. Dylai'r rhai sy'n gweithredu yn unol â threfniant rhwng pŵer tramor penodedig a menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth weld [pennod 6](#).
72. Dylai endidau a reolir gan bŵer tramor o wledydd y mae eu llywodraeth wedi'i phennu weld [pennod 1](#).

Enghraifft 15 (nid oes angen cofrestru) (nid yw'r cwmni'n rhan o lywodraeth dramor benodol): Mae Llywodraeth gyfan Gwlad O wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda' holl weithgareddau'n ffurfio gweithgareddau perthnasol. Mae system wleidyddol y wlad yn golygu bod gan y Llywodraeth yr hawl i reoli unrhyw endidau yn y wlad, waeth beth fo'u gweithgareddau. Mae cyflogeion cwmni cynhyrchu coffi, sy'n gweithredu heb gyfarwyddyd gan Lywodraeth Gwlad O, yn nodi ymgynghorydd i helpu i farchnata eu cynhyrchion yn y DU. Mae'r ymgynghorydd yn llofnodi contract gyda nhw ac yn cytuno i gynnal digwyddiad blasu yn y DU i hyrwyddo ffa coffi'r cwmni.

O ran y cwmni cynhyrchu coffi:

Nid yw Amod 1 wedi'i fodloni oherwydd, er bod Llywodraeth y wlad wedi'i phennu, nad yw'r cwmni cynhyrchu coffi mewn trefniant gyda'r Llywodraeth.

Nid yw Amod 2 wedi'i fodloni oherwydd, er bod gan y Llywodraeth yr hawl i gyfarwyddo gweithgareddau'r cwmni, yn yr amgylchiad hwn nid yw'n cyfarwyddo gweithgareddau'r cwmni mewn gwirionedd.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod yr holl weithgareddau (gan gynnwys ymgysylltu ag ymgynghorydd) yn ffurfio "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

O ran yr ymgynghorydd:

Nid yw Amod 1 wedi'i fodloni gan nad yw'r cwmni y mae'r ymgynghorydd mewn trefniant ag ef wedi'i bennu. Er bod gan y llywodraeth benodedig yr hawl i reoli'r cwmni'n effeithiol, nid yw'r cwmni ei hun wedi'i bennu.

Nid yw Amod 2 wedi'i fodloni gan fod y cyfarwyddyd yn dod gan y cwmni cynhyrchu coffi, nid y llywodraeth benodedig.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod yr holl weithgareddau (gan gynnwys marchnata ffa coffi) yn gyfystyr â "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Gan nad yw amodau 1 a 2 wedi'u bodloni, nid oes angen i'r cwmni cynhyrchu coffi na'r ymgynghorydd gofrestru.

Enghraifft 16 (angen cofrestru) (mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn endid penodedig ei hun): Mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth o Wlad P wedi'i phennu, gan fod ei gweithgareddau'n peri risg i ddiogelwch neu fuddiannau'r DU, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn ymrwymo i gontract gydag ymgynghorydd, sy'n cytuno i gynnal digwyddiad sy'n marchnata cynhyrchion y fenter i gynulleidfa yn y DU.

Mae **Amod 1** wedi'i fodloni gan fod y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, y mae'r ymgynghorydd mewn trefniant â hi, yn endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

Mae **Amod 2** wedi'i fodloni gan fod yr ymgynghorydd yn ymrwymo i gontract gydag endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

Mae **Amod 3** wedi'i fodloni gan fod yr holl weithgareddau (gan gynnwys marchnata cynhyrchion i gynulleidfa yn y DU) yn ffurfio "gweithgareddau perthnasol".

Mae **Amod 4** wedi'i fodloni gan nad oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Felly mae'n ofynnol i'r **ymgyngorydd** gofrestru.

Pennod 12: Troseddau a chosbau

73. Mae'r troseddau canlynol o dan yr haen uwch yn gosbadwy gyda hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy:

- Methu â chofrestru trefniant cofrestradwy (adran 65(5) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023);
- Cynnal gweithgareddau perthnasol, neu drefnu i eraill gynnal y gweithgareddau hyn, yn unol â threfniant cofrestradwy, lle nad yw gofynion cofrestru wedi'u bodloni (adran 67(2) a (3));
- Cynnal gweithgareddau perthnasol ar gyfer endid penodedig a reolir gan bŵer tramor heb gofrestru ymlaen llaw (adran 68(9));
- Cynnal gweithgareddau perthnasol ar gyfer pŵer tramor penodedig wrth weithredu o dan gamliwiad a heb gofrestru ymlaen llaw (adran 68(10));
- Methu â diweddarau cofrestriad o fewn 14 diwrnod lle mae newid sylweddol i'r wybodaeth a gofrestrwyd (adran 74(8));
- Methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth (adran 75(8));
- Darparu gwybodaeth ffug, anghywir neu gamarweiniol (adran 77);
- Cynnal gweithgareddau perthnasol, neu drefnu i eraill gynnal y gweithgareddau hyn, yn unol â threfniant cofrestradwy, lle mae gwybodaeth ffug, anghywir neu gamarweiniol wedi'i darparu (adran 78(1)).

74. Dim ond pan fydd y person y mae'n ofynnol iddo gofrestru yn gwybod, neu, o ystyried materion eraill sy'n hysbys iddo'n rhesymol, y dylai wybod, fod y trefniant o fath sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestru y mae'r drosedd o dan adran 65(5) yn berthnasol. Pan na allai'r person fod wedi gwybod mai dyma oedd yr achos (er enghraifft, os na allent fod wedi gwybod bod y person yr oeddent yn y trefniant gydag ef yn rhan o bŵer tramor penodedig), yna ni fyddant yn cyflawni'r drosedd.

75. Mewn achosion llys sy'n gysylltiedig â'r troseddau o dan adrannau 67(3), 68(9) a 68(10), mae'n amddiffyniad i'r person dan sylw arddangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol ymarferol i wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru ac, o ganlyniad, eu bod yn credu'n rhesymol ei fod wedi'i gofrestru. Gellir dod o hyd i fanylion pellach ym [mhennod 6](#).

76. Dim ond pan fydd y person yn gwybod, neu, o ystyried materion eraill y mae'n hysbys iddo yn rhesymol, y dylai wybod, bod gwybodaeth ffug, anghywir neu gamarweiniol wedi'i darparu y mae'r drosedd o dan 78(1) yn berthnasol. Os na allai'r person fod wedi gwybod bod y wybodaeth a ddarparwyd yn ffug, yn anghywir neu'n gamarweiniol, yna ni fyddant yn cyflawni'r drosedd. Ni fyddai'r drosedd yn berthnasol pe bai'r wybodaeth yn cael ei diweddarau o fewn y ffenestr 14 diwrnod ar gyfer diweddarau newid sylweddol.

Pennod 13: Rhyngweithio rhwng FIRS a mesurau eraill y Llywodraeth

77. Mae gofynion FIRS, Deddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol (NSIA), rheolaethau allforio strategol y DU, y Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) a'r Gofrestr o Lobïwyr Ymgynghorol yn wahanol ac ar wahân. Nid yw cofrestru, neu gymeradwyo, o dan un o'r cynlluniau hyn yn gyfwerth â chydymffurfio â nhw i gyd.
78. Mae'r haen uwch o FIRS yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru (ond nid cymeradwyo) trefniadau gyda phwerau neu endidau tramor penodedig i gynnal gweithgareddau yn y DU, yn ogystal â chofrestru gweithgareddau perthnasol a gyflawnir gan endidau penodedig.
79. Mae [Deddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol](#) 2021 yn rhoi pwerau i'r Llywodraeth graffu ac ymyrryd mewn caffaeliadau yn economi'r DU, megis cymryd drosodd busnesau, er mwyn amddiffyn diogelwch cenedlaethol. Fel rhan o hyn, rhaid i gaffaelwyr hysbysu a chael cymeradwyaeth gan y Llywodraeth ar gyfer rhai mathau o fargeinion sy'n cynnwys endidau sy'n gweithredu mewn sectorau arbennig o sensitif o'r economi.
80. Mae [rheolaethau allforio strategol y DU](#) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n allforio neu'n trosglwyddo rhai mathau o nwyddau, meddalwedd neu dechnoleg wneud cais am drwydded allforio cyn eu hallforio neu eu trosglwyddo.
81. Mae'r [Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd](#) (ATAS) yn berthnasol i rai myfyrwyr ac ymchwilwyr tramor, y mae'n rhaid iddynt gael caniatâd ATAS cyn dechrau astudiaeth neu ymchwil lefel ôl-raddedig mewn meysydd sensitif sy'n gysylltiedig â thechnoleg yn y DU. Mae'r Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn gweinyddu'r cynllun ac yn cyhoeddi tystysgrifau ATAS.
82. Mae [Deddf Tryloywder Lobïo 2014](#) yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu sefydliadau gofrestru os ydynt am ymgymryd â lobïo ymgynghorol â thâl ar ran unrhyw drydydd parti. Mae'r Cofrestrydd Lobïwyr Ymgynghorol yn ddeiliad swydd annibynnol sy'n gyfrifol am gadw a chyhoeddi'r Gofrestr Lobïwyr Ymgynghorol a gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar wefan [Swyddfa'r Cofrestrydd Lobïwyr Ymgynghorol](#).

83. Mewn amgylchiadau lle mae angen cofrestru neu gymeradwyo o dan gynlluniau lluosog, bydd angen prosesu'r rhain ar wahân.

Pennod 14: Esemptiadau rhag cofrestru

84. Fel y nodir yn Atodlen 15 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023, gall esemptiadau rhag cofrestru ar yr haen uwch fod yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol.

Esemptiad 1: Y rhai sy'n rhan o drefniant Corff y Goron yn y DU (Atodlen 15 paragraff 1)

85. Nid oes angen cofrestru trefniadau pan fo'r Deyrnas Unedig yn rhan o'r trefniant hwnnw. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lle mae unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran y Goron (er enghraifft, gwas sifil), neu unrhyw endid sydd â statws y goron, yn rhan o'r trefniant hwnnw, gan gynnwys:

- Llywodraeth y DU,
- llywodraeth ddatganoledig (gan gynnwys llywodraethau'r Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon),
- adran o Lywodraeth y DU neu'r Llywodraeth ddatganoledig (gan gynnwys adrannau anweinidogol fel yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol a'r Swyddfa Twyll Difrifol),
- swyddog llywodraeth y DU neu'r llywodraeth ddatganoledig.

86. Mae esemptiad ychwanegol hefyd ar gyfer trefniadau y mae cyrff cyhoeddus y DU yn rhan ohonynt (gweler [esemptiad 6](#)).

87. Dim ond pan fydd y Deyrnas Unedig yn rhan wirioneddol o'r **trefniant** gyda'r pŵer tramor penodedig y mae'r esemptiad yn berthnasol (er enghraifft, pe bai'n gytundeb amlochrog sy'n cynnwys y DU a'r pŵer tramor penodedig). Nid yw cyfranogiad Llywodraeth y DU yn y gweithgareddau yn golygu bod yr esemptiad yn berthnasol, oni bai bod Llywodraeth y DU hefyd yn rhan o'r trefniant.

88. Yn yr un modd, lle mae corff Coron y DU yn barti i ran o drefniant yn unig, byddai angen cofrestru'r rhan arall o'r trefniant o hyd. Er enghraifft, lle mae gan drefniant gyda phŵer tramor elfennau ffurfiol ac anffurfiol, a dim ond rhan o'r elfen ffurfiol yw corff Coron y DU, efallai y bydd angen cofrestru elfennau anffurfiol y trefniant o hyd os bodlonir yr holl amodau.

Enghreifftiau o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 17 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae menter dramor sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi'i phennu ar yr haen uwch, gyda chyfranogiad yn natblygiad seilwaith y DU yn gyfystyr â "gweithgaredd perthnasol". Mae adran o lywodraeth y DU yn cynnal diwydrwydd dyladwy ynghylch y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth ac yn llofnodi contract â hi ar gyfer cyfranogiad cyfyngedig mewn prosiect buddsoddi yn y DU. Gan fod adran o lywodraeth y DU yn rhan o'r trefniant hwn, ni fyddai'n rhaid i'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru ei chyfranogiad yn y prosiect hwn.

Enghraifft 18 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae Llywodraeth Gwlad Q wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae'r DU yn cynnal cynhadledd amlochrog y mae swyddogion o Wlad Q wedi'u gwahodd iddi ac mae Llywodraeth y DU wedi trefnu gyda gwesty y gall holl fynychwyr rhyngwladol y gynhadledd aros yno. Mae swyddogion o Wlad Q yn archebu eu llety'n uniongyrchol gyda'r gwesty, yn unol â'r trefniant gyda Llywodraeth y DU. Gan fod y DU yn rhan o'r trefniant rhwng Llywodraeth Gwlad Q a'r gwesty, nid oes angen i'r gwesty gofrestru.

Enghraifft 19 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae cwmni rheoli cyfleusterau yn gontractwr i adran o Lywodraeth y DU ac adran o lywodraeth Gwlad R, sy'n bŵer tramor penodedig. Fel rhan o'u contract gyda'r pŵer tramor penodedig, mae'r cwmni'n cyflogi staff o'r DU i reoli cyfleusterau yng Ngwlad R. Er bod y cwmni'n gontractwr i Lywodraeth y DU a'r pŵer tramor penodedig, nid yw Llywodraeth y DU yn rhan o'r trefniant rhwng y cwmni a'r pŵer tramor penodedig, felly nid yw'r esemptiad yn berthnasol.

Enghraifft 20 (dim ond i ran o'r trefniant mae'r esemptiad yn berthnasol): Mae sefydliad ymchwil yn y DU, ynghyd ag adran o lywodraeth y DU, yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad S, sydd wedi'i phennu ar yr haen uwch, wedi'i ategu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae sefydliad ymchwil y DU yn llofnodi contract â Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad S, ac yn cael ei gyfarwyddo i gynnal prosiect ymchwil ar gyfer y Weinyddiaeth. Nid yw adran llywodraeth y DU yn rhan o'r contract hwnnw, felly nid yw'r esemptiad yn berthnasol i'r contract, er y byddai'n berthnasol i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Felly, byddai angen i sefydliad ymchwil y DU gofrestru'r contract. Nid oes gwahaniaeth a wnaeth adran o lywodraeth y DU gyflwyno neu annog y berthynas.

Esemtiad 2: Pwerau tramor (Atodlen 15 paragraff 2)

89. Nid oes gofyn i bwerau tramor (yn ogystal â'u cyflogeion a'u deiliaid swyddi) gofrestru eu gweithgareddau eu hunain, ar yr amod eu bod yn agored ac yn onest ynglŷn â phwy y maent yn ei gynrychioli (gweler paragraff 7(2) o Atodlen 15 yn ogystal â pharagraff 2).
90. Nid yw'r esemptiad hwn yn berthnasol pan fydd person sy'n gweithredu ar ran y pŵer tramor yn gwneud camliwiad ynghylch pwy ydynt, neu'r swyddogaeth y maent yn gweithredu ynddi. Mae camliwiad yn cynnwys pan fydd yr unigolyn yn honni ei fod yn rhywun arall, yn cynrychioli rhywun arall neu'n bod mewn rôl sy'n wahanol i'r un y maent ynddi. Gellir ei wneud trwy wneud datganiad neu drwy unrhyw fath arall o ymddygiad (gan gynnwys hepgoriad) a gall fod yn benodol neu'n oblygedig. Gallai hefyd gynnwys cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n gyfystyr â chamliwiad, hyd yn oed os yw rhywfaint neu'r holl wybodaeth yn wir. Gallai hyn fod yn wir pe bai, er enghraifft, rhywun yn agored eu bod yn gweithio i bŵer tramor, ond heb sôn eu bod yn swyddog cudd-wybodaeth.
91. Diffinnir pŵer tramor fel unrhyw un o'r canlynol (gweler adran 32 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023):
- a) y sofran neu bennaeth arall gwladwriaeth dramor yn eu swyddogaeth gyhoeddus,
 - b) llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor,
 - c) asiantaeth neu awdurdod llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor,
 - d) awdurdod sy'n gyfrifol am weinyddu materion ardal o fewn gwlad neu diriogaeth dramor, neu bersonau sy'n arfer swyddogaethau awdurdod o'r fath, neu

e) plaid wleidyddol sy'n blaid wleidyddol lywodraethol llywodraeth dramor.

92. Mae gweithgareddau a gyflawnir yn uniongyrchol gan genadaethau diplomyddol, swyddfeydd consylaidd a chenadaethau parhaol gwladwriaethau tramor sydd wedi'u lleoli yn y DU i sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU, yn ogystal â gweithgareddau swyddogol eu diplomyddion ac aelodau staff sy'n gweithio'n lleol, wedi'u cynnwys yn yr esemptiad hwn.

Enghreifftiau o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 21 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Diogelwch Gwlad T wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae cyflogai o'r weinyddiaeth honno'n ymweld yn swyddogol â'r DU i ymgysylltu ag ymchwilyr y DU. Er bod y Weinyddiaeth Diogelwch wedi'i phennu, nid oes angen cofrestru ar gyfer gweithgareddau y mae'n eu cyflawni ei hun fel pŵer tramor.

Enghraifft 22 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae swyddog cudd-wybodaeth gudd sy'n gweithio i Lywodraeth Gwlad U, sy'n bŵer tramor penodedig, yn mynychu cynhadledd yn y DU ac yn cyflwyno ei hun fel dyn busnes i gwmni preifat. Er bod y swyddog yn cael ei gyflogi gan bŵer tramor, gan nad yw'n agored ac yn onest ynglŷn â'r swyddogaeth y mae'n gweithredu ynddi, nid yw'r esemptiad yn berthnasol.

Esemtiad 3: Priodau, partneriaid ac aelodau teulu staff cenadaethau diplomyddol, swyddi consylaidd a chenadaethau parhaol i sefydliadau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y DU (Atodlen 15 paragraff 3(2)-(5))

93. Mae'r esemptiad hwn yn berthnasol i unigolyn lle mae'r **ddau** amodau A a B wedi'u bodloni.

Amodau ar gyfer cymhwyso'r esemptiad

Amod A: Mae'r unigolyn yn aelod o deulu (gan gynnwys partner di-briod mewn perthynas deuluol barhaus) "prif berson".

Amod B: Mae'r unigolyn yn gwneud trefniant i gefnogi gweithgareddau neu ddyletswyddau swyddogol y prif berson.

"Prif berson" yw aelod o staff cenhadaeth ddiplomyddol, swydd gonsylaidd neu'r genhadaeth barhaol i sefydliad rhyngwladol yn y DU o wlad sy'n aelod o'r sefydliad.

94. Ni fyddai'r esemptiad hwn yn berthnasol lle mae'r aelod o'r teulu yn gwneud trefniant wrth weithredu yn ei swyddogaeth bersonol, neu fel rhan o unrhyw waith arall y mae'n ei wneud nad yw'n gysylltiedig â gwaith y prif berson.

Enghreifftiau o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 23 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae swydd gonsylaidd yn y DU yn rhan o lywodraeth dramor sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae pennaeth y swydd gonsylaidd yn cynnal derbyniad sydd â'r nod o ddod ag academyddion y DU ac academyddion o'u gwlad eu hunain ynghyd. Mae priod aelod o staff y swydd gonsylaidd (sydd hefyd yn mynychu'r derbyniad) yn siarad ag academyddion y DU yn y derbyniad, gan geisio sicrhau prosiectau cydweithredol gydag academyddion o'u gwlad eu hunain. Tra bod y priod yn gweithredu ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig, nid oes angen iddynt gofrestru gan fod esemptiad yn berthnasol.

Enghraifft 24 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae priod aelod o staff llysgenhadaeth llywodraeth dramor benodol yn y DU yn cael ei gyflogi fel ymgynghorydd mewn cwmni ymgynghori preifat yn y DU. Mae'r cwmni ymgynghori wedi'i gcontractio gan y llywodraeth dramor benodol i ddarparu gwasanaethau hyrwyddo twristiaeth wedi'u targedu at ddinasyddion y DU, a darperir llawer o'r gwasanaethau hyn gan y priod diplomyddol. Er bod y priod yn bartner i aelod o staff cenhadaeth ddiplomyddol, mae hi'n cael ei chyfarwyddo yn ei rhinwedd fel ymgynghorydd (yn hytrach na gweithredu i gefnogi ei phriod diplomyddol), felly **nid** yw'r esemptiad yn berthnasol.

Esemtiad 4: Gweithgareddau cyfreithiol (Atodlen 15 paragraff 6))

95. Pan fo trefniant gyda phŵer tramor neu endid penodedig yn ymwneud â chyflawni gweithgaredd cyfreithiol gan gyfreithiwr, bydd y trefniant hwn wedi'i esemptio rhag gofynion cofrestru.
96. Pan fo cyfreithiwr yn cyflawni gweithgaredd nad yw'n gyfreithiol, er enghraifft yn ei swyddogaeth bersonol, ni fydd yn elwa o'r esemptiad hwn. Yn yr un modd, pan fo trefniant yn ymwneud â chyflawni gweithgaredd cyfreithiol gan unigolyn nad yw'n bodloni'r diffiniad o "gyfreithiwr", ni fydd yr esemptiad yn berthnasol.
97. Mae "Cyfreithiwr" yn golygu (gweler paragraff 6 (3))—
- a) person sydd, at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn berson awdurdodedig mewn perthynas â gweithgaredd sy'n gyfystyr â gweithgaredd cyfreithiol neilltuedig (o fewn ystyr y Ddeddf honno),
 - b) cyfreithiwr neu fargyfreithiwr yng Ngogledd Iwerddon,
 - c) cyfreithiwr neu eiriolwr yn yr Alban, neu
 - d) person sy'n aelod, ac sydd â hawl i ymarfer fel y cyfryw, o broffesiwn cyfreithiol a reoleiddir mewn awdurdodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
98. "Mae "gweithgaredd cyfreithiol" yn golygu (gweler paragraff 6(4))—
- a) yng Nghymru a Lloegr, gweithgaredd cyfreithiol o fewn ystyr adran 12 o Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007,
 - b) yng Ngogledd Iwerddon, gweithgaredd cyfreithiol o fewn ystyr yr adran honno, ond darllen y cyfeiriad at weithgaredd sy'n weithgaredd cyfreithiol neilltuedig fel cyfeiriad at weithgaredd sy'n cyfateb i weithgaredd cyfreithiol neilltuedig,
 - c) yn yr Alban, darparu gwasanaethau cyfreithiol o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol (Yr Alban) 2010, neu
 - d) gweithredu fel dyfarnwr neu gyfryngwr.

Enghreifftiau o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 25 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, gyda swyddfa ranbarthol yn y DU, wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn contractio cyfreithiwr i'w chynrychioli mewn achos llys parhaus. Er bod y cyfreithiwr yn gweithredu ar gyfarwyddyd endid penodedig, nid oes angen iddynt gofrestru gan eu bod yn elwa o esemptiad.

Enghraifft 26 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V, sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch, yn cyfarfod â chyfreithiwr sy'n byw yn y DU. Maent yn ei gyfarwyddo i ddarparu gwybodaeth am raddau cyfraith yn y DU a chynghor ar sut i wneud cais llwyddiannus i brifysgol yn y DU. Er bod yr unigolyn yn gyfreithiwr, nid yw'n cael ei gyfarwyddo i gyflawni gweithgareddau cyfreithiol, felly nid yw'r esemptiad yn berthnasol.

Esemptiad 5: Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd gonsylaidd neu genhadaeth barhaol i sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU (Atodlen 15 paragraff 3(1))

99. Pan fydd person yn darparu nwyddau neu wasanaethau sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi gweithrediad effeithlon cenhadaeth ddiplomyddol (er enghraifft, llysgenhadaeth), swydd gonsylaidd neu genhadaeth barhaol i sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU, bydd hyn wedi'i esemptio rhag cofrestru. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithgareddau a gwasanaethau fel:

- Gwasanaethau llety (er enghraifft, fflatiau â gwasanaeth ar gyfer diplomyddion);
- Gwasanaethau glanhau;
- Gwasanaethau arlwyo;
- Gwasanaethau adeiladu a chynnal a chadw;
- Gwasanaethau bancio;
- Gwasanaethau yswiriant;
- Gwerthu offer swyddfa;
- Cyflenwi cyfleustodau;
- Gwasanaethau trafnidiaeth (er enghraifft, gwasanaethau tacsï);
- Gwasanaethau post, dosbarthu a llongau.

100. Dim ond pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn angenrheidiol ar gyfer gweithrediad y genhadaeth ddiplomyddol y mae'r esemptiad yn berthnasol, megis pan fyddai'r genhadaeth yn ei chael hi'n anodd gweithredu hebddynt. Nid yw contractwyr a chyflenwyr cenadaethau diplomyddol sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau eraill (megis cynnal digwyddiadau a darparu gwasanaethau marchnata) yn elwa o'r esemptiad.

Enghraifft o amgylchiad lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 27 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Dramor Gwlad W wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae llysgenhadaeth sydd wedi'i lleoli yn y DU, sy'n rhan o Weinyddiaeth Dramor Gwlad W, yn llofnodi contract gyda cwmni adeiladu yn y DU ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol i'r llysgenhadaeth. Nid oes angen i'r cwmni adeiladu gofrestru, gan fod y trefniant yn ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol.

Enghraifft 28 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Dramor Gwlad X wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae llysgenhadaeth yn y DU, sy'n rhan o Weinyddiaeth Dramor Gwlad X, yn llofnodi contract gyda cwmni cysylltiadau cyhoeddus (PR). Fel rhan o'r contract, mae'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus yn cytuno i gynnal digwyddiad lle byddai siaradwyr yn ceisio mynd i'r afael â beirniadaeth ddiweddar o orthrwm pobl Gwlad X gan y Llywodraeth, gyda'r bwriad o newid y naratif am y mater. Er bod y cwmni cysylltiadau cyhoeddus mewn trefniant gyda cenhadaeth ddiplomyddol, nid yw'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth y genhadaeth.

Esemtiad 6: Y rhai sy'n rhan o drefniant corff cyhoeddus yn y DU

101. Nid oes angen cofrestru trefniadau pan fydd corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant hwnnw. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lle mae unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran corff cyhoeddus y DU (er enghraifft, cyflogai), yn rhan o'r trefniant. Mae cyrff cyhoeddus y DU yn cynnwys cyrff cyhoeddus yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
102. Cyrff cyhoeddus y DU at ddibenion yr esemptiad hwn yw:
 - a. Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) gan gynnwys ymddiriedolaethau'r GIG;
 - b. Yr heddlu (heb gynnwys comisiynwyr yr heddlu a throsteddu a Swyddfa'r Maer ar gyfer plismona a throsteddu).
 - c. Cyrff a swyddfeydd cyhoeddus eraill, sy'n cynnwys rhestr o gyrff cyhoeddus anadrannol a enwir yn unigol. Mae enghreifftiau'n cynnwys

Banc Lloegr, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Ymchwil ac Arloesi'r DU ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Gellir dod o hyd i restr lawn o'r rhain yn Atodlen 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

103. Nid yw'r esemptiad hwn yn berthnasol i drefniadau y mae cyrff cyhoeddus llywodraeth leol ac ysgolion a gynhelir, ysgolion academi a sefydliadau addysg bellach ac uwch yn rhan ohonynt.
104. Dim ond pan fydd corff cyhoeddus y DU yn rhan wirioneddol o'r trefniant gyda'r pŵer tramor penodedig y mae'r esemptiad yn berthnasol (er enghraifft, pe bai'n gytundeb amlochrog sy'n cynnwys corff cyhoeddus y DU a'r pŵer tramor penodedig). Nid yw cyfranogiad corff cyhoeddus y DU yn y gweithgareddau yn unig yn golygu bod yr esemptiad yn berthnasol.
105. Yn yr un modd, lle mae corff cyhoeddus y DU yn rhan o drefniant yn unig, byddai angen cofrestru'r rhan arall o'r trefniant o hyd. Er enghraifft, lle mae gan drefniant gyda phŵer tramor elfennau ffurfiol ac anffurfiol, a bod corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r elfen ffurfiol yn unig, efallai y bydd angen cofrestru elfennau anffurfiol y trefniant o hyd os bodlonir yr holl amodau.
106. Hyd yn oed os yw corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant, bydd angen i berson mewn trefniant gyda phŵer tramor (gan gynnwys pŵer tramor penodedig) gofrestru gyda FIRS lle mae'r trefniant hwn yn golygu eu bod yn cael eu cyfarwyddo i gynnal gweithgaredd dylanwadu gwleidyddol yn y DU.

Enghreiffiau o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 29 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae menter dramor sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi'i phennu ar yr haen uwch, gyda chyfranogiad yn natblygiad seilwaith y DU yn gyfystyr â "gweithgaredd perthnasol". Mae corff cyhoeddus yn y DU yn llofnodi contract ag ef ar gyfer cyfranogiad cyfyngedig mewn prosiect yn y DU. Gan fod corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant hwn, ni fyddai'n rhaid i'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru ei chyfranogiad yn y prosiect hwn.

Enghraifft 30 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae awdurdod iechyd cyhoeddus Gwlad Y wedi'i bennu fel pŵer tramor o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae corff cyhoeddus yn y DU yn cynnal cynhadledd iechyd cyhoeddus ryngwladol yn y DU y gwahoddir cyflogeion yr awdurdod iechyd cyhoeddus penodedig iddi. Mae'r corff cyhoeddus yn y DU wedi trefnu gyda gwesty y gall pob mynychwr rhyngwladol yn y gynhadledd aros yno. Mae swyddogion o awdurdod iechyd cyhoeddus Gwlad Y yn archebu eu llety'n uniongyrchol gyda'r gwesty o dan y trefniant gyda'r corff cyhoeddus yn y DU. Gan fod y corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant rhwng awdurdod iechyd cyhoeddus Gwlad Y a'r gwesty, nid oes angen i'r gwesty gofrestru.

Enghraifft 31 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae cwmni rheoli cyfleusterau yn contractwr i gorff cyhoeddus yn y DU ac i adran lywodraeth Gwlad Z, sy'n bŵer tramor penodedig. Fel rhan o'u contract gyda'r pŵer tramor penodedig, mae'r cwmni'n cyflogi staff o'r DU i reoli cyfleusterau yng Ngwlad Z. Er bod y cwmni'n contractwr i'r corff cyhoeddus yn y DU a'r pŵer tramor penodedig, nid yw'r corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant rhwng y cwmni a'r pŵer tramor penodedig, felly nid yw'r esemptiad yn berthnasol.

Enghraifft 32 (dim ond i ran o'r trefniant y mae'r esemptiad yn berthnasol): Mae corff cyhoeddus yn y DU, ynghyd â chwmni technoleg preifat yn y DU, yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad A, sydd wedi'i phennu ar yr haen uwch, wedi'i ategu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r cwmni technoleg yn y DU yn llofnodi contract â Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad A, ac yn cael ei gyfarwyddo i gynnal prosiect ymchwil. Nid yw'r corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r contract hwnnw, felly nid yw'r esemptiad yn berthnasol i'r contract, er y byddai'n berthnasol i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Felly, byddai'n ofynnol i'r cwmni technoleg yn y DU gofrestru'r contract. Nid oes gwahaniaeth a wnaeth y corff cyhoeddus yn y DU gyflwyno neu annog y berthynas.

Esemtiad 7: Trefniadau Addysg a Ariennir

108. Pan fo rhywun mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig lle mae'r pŵer tramor yn rhoi cymorth ariannol iddynt tra byddant yn cwblhau cwrs addysg bellach neu uwch yn y DU, ni fydd angen iddynt gofrestru pan fyddant

yn cael eu cyfarwyddo gan y pŵer tramor hwnnw i gyflawni gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol i:

- a. Cwblhau'r cwrs addysg;
- b. Cynnal enw da darparwr y cymorth ariannol neu'r addysg;
- c. Bodloni'r safonau ymddygiad y mae darparwr y cymorth ariannol neu'r addysg yn eu disgwyl yn rhesymol; neu
- d. Hysbysu unrhyw berson o wybodaeth bersonol megis eu manylion cyswllt, gwybodaeth sydd ei hangen i fonitro eu cynnydd tuag at gwblhau eu haddysg ac ati.

109. Pan fo rhywun sy'n darparu addysg uwch neu bellach mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig i hwyluso trefniant a fanylir yn y paragraff uchod, mae'r person hwnnw hefyd wedi'i esemptio rhag cofrestru gyda FIRS.

110. Dim ond oherwydd bod rhywun mewn trefniant addysg esemptiedig, nid yw'n golygu eu bod wedi'u hesemptio rhag cofrestru unrhyw drefniant gyda FIRS. Er enghraifft, pan fo rhywun mewn trefniant ysgoloriaeth esemptiedig yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor i gynnal gweithgaredd sydd y tu allan i'r gweithgaredd a gwmpesir gan yr esemptiad, fel trefnu protest ar gampws prifysgol yn y DU, bydd yn rhaid iddynt gofrestru hyn gyda FIRS.

111. Nid yw llawer o amodau o fewn trefniant ysgoloriaeth nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r myfyriwr ymgymryd â gweithgaredd yn y DU ond sy'n fwy cyffredinol, yn gofrestradwy gyda FIRS e.e. ufuddhau i ganllawiau a rheolaeth llysgenhadaeth y myfyriwr tra byddant dramor. Fodd bynnag, pe bai'r myfyriwr yn cael ei gyfarwyddo wedi hynny i ymgymryd â gweithgaredd, yr oedd yn cael ei orfodi i'w wneud yn rhinwedd amod presennol o'u hysgoloriaeth nad yw wedi'i gynnwys gan yr esemptiad, byddai hyn yn gofrestradwy. Er enghraifft, pe bai llysgenhadaeth dramor benodedig yn cyfarwyddo myfyriwr sy'n derbyn ysgoloriaeth i gasglu manylion personol am ei gyd-fyfyrywyr ac adrodd y rhain i'r llysgenhadaeth, byddai hyn yn gofrestradwy.

110. Mae'r [Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd](#) (ATAS) yn berthnasol i rai myfyrywyr ac ymchwilwyr tramor, y mae'n rhaid iddynt gael cliriad ATAS cyn dechrau astudiaeth lefel ôl-raddedig neu ymchwil mewn meysydd sensitif sy'n gysylltiedig â thechnoleg yn y DU. Mae'r Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn gweinyddu'r cynllun ac yn cyhoeddi tystysgrifau ATAS. Pan fo angen tystysgrif ATAS ar fyfyriwr cyn dechrau cwrs sy'n dod o dan drefniant ysgoloriaeth, dim ond os yw tystysgrif ATAS wedi'i chael cyn iddynt ddechrau'r cwrs hwnnw y bydd yr esemptiad ysgoloriaeth uchod yn berthnasol.

Enghraifft o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 33 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad B wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae myfyriwr yn ymrwymo i drefniant gyda Gweinyddiaeth Addysg Gwlad B lle mae'n derbyn cyllid i gwblhau gradd prifysgol yn y DU. Fel rhan o amodau'r cyllid hwn, cânt eu cyfarwyddo i gyflawni nifer o weithgareddau yn y DU gan gynnwys mynychu dosbarthiadau ym mhrifysgol y DU a rhoi diweddariad blynyddol i'r pŵer tramor ar gynnydd eu cwrs. Nid oes angen i'r myfyriwr gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

Enghraifft 34 (mae esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad C wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Maent yn anfon 7 myfyriwr o wlad y pŵer tramor penodedig i brifysgol yn y DU i astudio. Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad C yn cyfarwyddo prifysgol y DU i anfon adroddiad blynyddol ar gynnydd academiaidd y myfyrwyr. Nid oes angen i brifysgol y DU gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS cyn belled â'i fod wedi'i bwrpasu i hwyluso trefniant ar gyfer darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr.

Enghraifft 35 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad D wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae myfyriwr yn dod i drefniant gyda Gweinyddiaeth Addysg Gwlad D lle mae'n derbyn cyllid i gwblhau gradd prifysgol yn y DU. 2 flynedd i mewn i'w cwrs, mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad D yn cysylltu â'r myfyriwr ac yn ei gyfarwyddo i drefnu protest ar gampws ei brifysgol yn y DU i hyrwyddo polisi tramor Gwlad D. Er nad oes gofyn i'r myfyriwr gofrestru'r trefniant ariannu ar gyfer ei astudiaethau, mae'n ofynnol iddo gofrestru'r cyfarwyddyd i drefnu protest.

Esemtiad 8: Gwasanaethau Gweinyddol a Thechnegol y Llywodraeth

113. Nid oes angen i berson gofrestru trefniant lle mae pŵer tramor penodedig yn ei gyfarwyddo i gyflawni gweithgaredd yn y DU sy'n rhesymol angenrheidiol i hwyluso darparu'r gwasanaethau canlynol gan neu ar ran y pŵer tramor penodedig:

- a. swyddogaethau consylaidd gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyhoeddi pasbortau neu ddogfennau teithio i ddinasyddion pŵer tramor penodedig, gwasanaethau notareiddio a chofrestru (gan gynnwys cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau a darparu neu drefnu i gymorth gael ei ddarparu mewn amgylchiadau brys, megis anaf difrifol neu salwch);
- b. gwasanaethau mewnfudo a dinasyddiaeth a;
- c. gwasanaethau gweinyddu trethi megis cyngor neu gymorth ar dalu treth sy'n ddyledus i'r pŵer tramor penodedig neu gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sy'n ymwneud â threthi.

114. Dim ond pan gyfarwyddir person i gyflawni gweithgaredd sy'n rhesymol angenrheidiol i alluogi darparu gwasanaeth sy'n dod o dan yr esemptiad y mae wedi'i esemptio rhag cofrestru gyda'r cynllun. Er enghraifft, os cyfarwyddir unigolyn i lenwi ffurflen gais am basbort gan y pŵer tramor penodedig fel rhan o'r broses o wneud cais am basbort neu ei adnewyddu, nid oes angen cofrestru hyn gyda FIRS. Fodd bynnag, os cyfarwyddodd y pŵer tramor penodedig iddynt ddarparu enwau a chyfeiriadau cyflogeion cwmni'r unigolyn, wrth wneud cais am basbort, ni fyddai hyn wedi'i esemptio a dylid ei gofrestru gyda FIRS.

Enghraifft o amgylchiadau lle mae'r esemptiad hwn yn berthnasol (ac nad yw'n berthnasol)

Enghraifft 36 (gwasanaethau consylaidd) (mae esemptiad yn berthnasol): Mae unigolyn yn dymuno teithio i Wlad E am wyliau. Mae Llywodraeth Gwlad E wedi'i phennu ar FIRS. Rhaid i'r unigolyn gael fisa twristaidd i ymweld â Gwlad E a rhaid iddo gwblhau proses ymgeisio am fisa yn llysgenhadaeth Gwlad E yn y DU. Fel rhan o'r gwasanaeth ymgeisio am fisa, mae llysgenhadaeth Gwlad E yn cyfarwyddo'r unigolyn i gyflwyno llun pasbort a chynnal archwiliad meddygol.

Mae cyflwyno llun pasbort a chynnal archwiliad meddygol yn rhesymol angenrheidiol i gefnogi proses ymgeisio am fisa a chyfarwyddyd rhesymol gan y llysgenhadaeth. O ganlyniad, nid oes angen i'r unigolyn gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

Enghraifft 37 (gwasanaethau mewnfudo a dinasyddiaeth) (nid yw'r esemptiad yn berthnasol): Mae unigolyn yn dymuno cael dinasyddiaeth gyda Gwlad F. Mae Gwlad F wedi'i phennu ar FIRS. Felly, rhaid i'r unigolyn wneud cais i Lysgenhadaeth Gwlad F yn y DU i gael dinasyddiaeth. Mae llysgenhadaeth Gwlad F yn cyfarwyddo'r unigolyn i gyflwyno dogfennau fel rhan o'r broses ymgeisio am ddinasyddiaeth sy'n cynnwys gwiriad cofnodion troseddol a chopïau o gontractau masnachol eu cyflogwr yn y DU.

Er bod y cais am wiriad cofnodion troseddol yn rhesymol angenrheidiol i gefnogi proses ymgeisio am ddinasyddiaeth, nid yw gofyn am gopïau o gontractau masnachol cyflogwr presennol yr unigolyn. Felly, byddai angen cofrestru'r agwedd hon ar y trefniant gyda FIRS.

Enghraifft 38A (gwasanaethau gweinyddu trethi) (mae esemptiad yn berthnasol): Mae gan fusnes ieuchyd yn y DU weithgaredd masnachol rheolaidd ac ymgysylltiad â busnes (busnes X) sydd â'i bencadlys yng Ngwlad G. Nid yw Busnes X wedi'i bennu o dan FIRS, ond mae Gweinyddiaeth Gyllid Gwlad G wedi'i phennu.

Fel rhan o ymgysylltiadau masnachol parhaus, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r busnes yn y DU dalu treth i Weinyddiaeth Gyllid Gwlad G. Mae'r busnes yn y DU yn cysylltu â Gweinyddiaeth Gyllid Gwlad G. Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn cyfarwyddo'r busnes yn y DU i lenwi a chyflwyno ffurflen asesu treth. Mae'r ffurflenni cais yn gofyn am wybodaeth a ystyrir yn rhesymol ac o fewn cwmpas y broses weinyddol. Nid oes angen i'r busnes yn y DU gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

Enghraifft 38B (gwasanaethau gweinyddu trethi) (nid yw esemptiad yn berthnasol): Mae gan fusnes ieuchyd yn y DU weithgaredd masnachol rheolaidd ac ymgysylltiad â busnes (busnes X) sydd â'i bencadlys yng Ngwlad G. Nid yw Busnes X wedi'i bennu ar FIRS, ond mae Gweinyddiaeth Gyllid Gwlad G wedi'i phennu.

Fel rhan o ymrwymadau masnachol parhaus, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r busnes yn y DU dalu treth i Weinyddiaeth Gyllid Gwlad G. Mae'r busnes yn y DU yn cysylltu â Gweinyddiaeth Gyllid Gwlad G. Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn cyfarwyddo'r busnes yn y DU i lenwi a chyflwyno ffurflen asesu treth. Mae'r Weinyddiaeth hefyd yn gofyn am wybodaeth fanwl am adran ymchwil a datblygu'r busnes yn y DU, gan gynnwys ymchwil feddygol parhaus.

Gan fod y Weinyddiaeth wedi gofyn am wybodaeth sydd y tu allan i gwmpas asesu treth, drwy ofyn am ddata ymchwil feddygol, dylid cofrestru'r gweithgaredd hwn gyda FIRS.

Atodiad A: Tabl o enghreifftiau

Mae'r tabl isod yn nodi'r holl enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau uchod, gan gynnwys a oes angen cofrestru ai peidio a pha rai o'r amodau perthnasol sydd wedi'u bodloni.

Enghraifft	Crynodeb	Amodau wedi’u bodloni				Angen cofrestru
		1	2	3	4	
Pennod 7 (enghreifftiau cyffredinol)						
1	Dylanwadwr mewn trefniant ag endid penodedig a reolir gan bŵer tramor i gynhyrchu fideos.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
2	Cwmni argraffu a reprograffeg mewn trefniant â phŵer tramor penodedig i gynhyrchu taflenni.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
3	Cwmni hedfan mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig i gyflwyno llwybr hedfan newydd rhwng y DU a Gwlad C.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
4	Cwmni a ariennir gan bŵer tramor penodedig i gynnal digwyddiadau rhwydweithio a chydweithio yn y DU.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
5	Entrepreneur mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig i hyrwyddo rhaglenni diwylliannol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
6	Dyn busnes mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig i gysylltu ag arbenigwyr a'u gwahodd i ddigwyddiad yn y dyfodol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
7	Dinasydd Gwlad G mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig i drefnu gwrthdystiad yn y DU.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes

8	Sefydliad hawliau dynol yn cael ei gyfarwyddo i ganslo araith gan wleidydd gwrthbleidiol o Wlad H.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
9	Ymgynghorydd mewn trefniant gydag asiantaeth llywodraeth dramor benodol i hyrwyddo twristiaeth i'r wlad.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
10	Gwladolyn cyffredin Gwlad J, y mae ei Llywodraeth wedi'i phennu, yn ymgysylltu ag academyddion y DU.	Nac ydyn	Nac ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac oes
11	Elusen sy'n derbyn rhoddion gan bŵer tramor penodol, ond heb gael ei chyfarwyddo i'w defnyddio mewn ffordd benodol.	Ydyn	Nac ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac oes
12	Cwmni o'r DU mewn trefniant gyda menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth mewn gwlad y mae ei Llywodraeth wedi'i phennu.	Nac ydyn	Nac ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac oes
Pennod 10 (mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth))						
13	Aelodau bwrdd pŵer tramor penodedig yn cyfarwyddo menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth i weithio gyda chwmni yn y DU i osod ceblau ffibr optig.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
14	Cyflogai mewn menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn prynu peiriant printio newydd ar gyfer swyddfa yn y DU.	Ydyn	Nac ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac oes
Pennod 11 (partneriaethau â mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth))						
15	Cwmni cynhyrchu coffi o wlad y mae ei llywodraeth wedi'i phennu yn marchnata ei gynhyrchion yn y DU trwy ymgynghorydd.	Nac ydyn	Nac ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac oes
16	Ymgynghorydd sy'n marchnata cynhyrchion ar	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes

	gyfarwyddyd endid penodol a reolir gan bŵer tramor.					
Pennod 14 (esemptiadau)						
17	Mae esemptiad "trefniant y DU" yn berthnasol gan fod Llywodraeth y DU wedi llofnodi contract ar gyfer cynnwys endid penodedig a reolir gan bŵer tramor mewn prosiect seilwaith yn y DU..	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
18	Mae esemptiad "trefniant y DU" yn berthnasol gan fod Llywodraeth y DU yn rhan o drefniant rhwng gwesty a phŵer tramor penodedig.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
19	Cwmni rheoli cyfleusterau mewn trefniadau ar wahân gyda Llywodraeth y DU a llywodraeth pŵer tramor penodedig, sy'n golygu nad yw'r esemptiad "trefniant y DU" yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
20	Sefydliad ymchwil mewn trefniant contractiol gyda phŵer tramor, ar wahân i'r trefniant Memorandwm Cydddealltwriaeth ehangach y mae Llywodraeth y DU yn rhan ohono.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
21	Cyflogai mewn gweinidogaeth benodedig sy'n ymwneud ag ymchwilwyr yn y DU; mae esemptiad ar gyfer pwerau tramor yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
22	Swyddog pŵer tramor penodedig yn gweithredu o dan gamliwiad, sy'n golygu nad yw'r esemptiad pŵer tramor yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
23	Priod diplomydd sy'n ymgysylltu ag academyddion mewn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes

	derbyniad swyddogol a gynhelir gan y genhadaeth ddiplomyddol; mae esemptiad ar gyfer aelodau o'r teulu diplomyddol yn berthnasol.					
24	Priod diplomydd mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd yn hytrach nag fel rhan o ddyletswyddau swyddogol y diplomydd, sy'n golygu nad yw'r esemptiad ar gyfer aelodau o'r teulu diplomyddol yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
25	Cyfreithiwr sy'n cynrychioli endid penodedig a reolir gan bŵer tramor mewn achos llys; mae esemptiad i gyfreithwyr sy'n cynnal gweithgareddau cyfreithiol yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
26	Cyfreithiwr sy'n cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn gyfreithiol ar gyfer pŵer tramor penodedig, sy'n golygu nad yw'r esemptiad ar gyfer cyfreithwyr sy'n cyflawni gweithgareddau cyfreithiol yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
27	Cwmni adeiladu sy'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw ar gyfer cenhadaeth ddiplomyddol pŵer tramor penodedig; mae esemptiad yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
28	Cwmni cysylltiadau cyhoeddus yn cynnal digwyddiad ar gyfer cenhadaeth ddiplomyddol pŵer tramor penodedig; nid	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes

	yw'r esemptiad yn berthnasol gan nad yw'r gweithgaredd yn angenrheidiol ar gyfer gweithrediad effeithlon y genhadaeth .					
29	Corff cyhoeddus mewn trefniant gyda menter benodol sy'n eiddo i'r wladwriaeth sy'n gysylltiedig â phrosiect seilwaith yn y DU; mae esemptiad ar gyfer cyrff cyhoeddus yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
30	Gwesty yn y DU sy'n darparu llety i gyflogeion pŵer tramor penodedig, ond mae corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
31	Cwmni rheoli cyfleusterau mewn trefniadau ar wahân gyda chorff cyhoeddus y DU a'r pŵer tramor penodedig, sy'n golygu nad yw esemptiad cyrff cyhoeddus y DU yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
32	Cwmni technoleg preifat mewn trefniant contractiol gyda phŵer tramor, ar wahân i'r trefniant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ehangach y mae corff cyhoeddus yn y DU yn rhan ohono.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
33	Myfyriwr y darparwyd cyllid iddo gan bŵer tramor penodedig i gynnal astudiaeth a gweithgareddau cysylltiedig yn y DU; esemptiad ar gyfer trefniadau ysgoloriaeth applies.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes

34	Prifysgol y DU yn derbyn myfyrwyr sy'n cael eu cyflogi gan bŵer tramor penodedig ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cynnydd; mae esemptiad ar gyfer trefniadau ysgoloriaeth yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
35	Mae myfyriwr ar raglen ysgoloriaeth yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig i drefnu protest.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
36	Mae unigolyn yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig i ddarparu gwybodaeth i gefnogi ei gais am fisa; mae esemptiad ar gyfer prosesau gweinyddol y llywodraeth yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
37	Mae unigolyn sy'n gwneud cais am ddinasyddiaeth yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig i ddarparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'u cais am ddinasyddiaeth.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes
38A	Mae busnes y DU yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig i ddarparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'i ffurflen dreth; mae esemptiad ar gyfer prosesau gweinyddol y llywodraeth yn berthnasol.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Nac ydyn	Nac oes
38B	Mae busnes y DU yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig i ddarparu gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'i ffurflen dreth.	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Ydyn	Oes

